15 Hydref 2015

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Nick Selwyn oedd rheolwr prosiect tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y tîm hwnnw'n cynnwys Gareth Jones, Duncan Mackenzie a staff PwC ac AGGCC o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb | 6 |
| | Argymhellion | 13 |
| 1 | Mae strategaethau ac arweinyddiaeth cynghorau'n canolbwyntio gormod ar gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol, ac nid ydynt bob amser yn cydnabod cyfraniad pwysig gwasanaethau eraill er mwyn cefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn | 15 |
| | Nid yw cynghorau bob amser yn pennu'r cyfeiriad anghenrheidiol er mwyn ymdrin ag anghenion pobl hŷn | 16 |
| | Er bod cynghorau wedi pennu annibyniaeth pobl hŷn yn flaenoriaeth, nid yw strategaethau a chynlluniau bob amser yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol partneriaid a gwasanaethau cyngor eraill | 20 |
| | Nid yw'r trefniadau i ymgynghori â dinasyddion a phartneriaid yn ddigon cadarn i roi'r mewnwelediad, y gymeradwyaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen i gyflawni blaenoriaethau cynghorau ar gyfer pobl hŷn | 24 |
| 2 | Er bod rhai enghreifftiau arloesol lle'r oedd cynghorau'n rhoi cymorth i bobl hŷn, ni roddir digon o werth ar wasanaethau ataliol ehangach a all helpu i leihau'r galw am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol | 28 |
| | Yn sgil y caledi ariannol, mae'n rhaid i gynghorau wneud penderfyniadau anodd er mwyn cydbwyso cyllidebau, ac maent yn ei chael hi'n anodd cynnal gwariant ar wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol | 29 |
| | Mae llawer o wasanaethau cymorth ymarferol sy'n rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl hŷn i fyw'n annibynnol wedi cael eu cwtogi | 32 |
| | Mae gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi cael eu cynnal i raddau helaeth, ond gwasanaethau cyffredinol i'r holl ddinasyddion yw llawer o'r rhain | 36 |
| | Mae argaeledd a mynediad at wasanaethau cymorth tai a seiliedig ar dai i bobl hŷn wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf | 40 |
| | Bu gostyngiad yn nifer y cyfleusterau cymunedol y mae cynghorau'n berchen arnynt sy'n helpu pobl hŷn i barhau i fyw gartref | 45 |
| | Bu'r Gronfa Gofal Canolraddol yn werthfawr er mwyn cefnogi gwasanaethau sy'n galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol, ond oherwydd natur fyrdymor y cyllid, a rhai cyfyngiadau ar werthusiadau a gwaith partneriaeth, mae'n anodd canfod a yw'r trawsnewid a ddymunir wrth gyflenwi yn cael ei gyflawni | 51 |

3 Oherwydd prinder data, ni all cynghorau ddangos effaith eu gwasanaethau o ran helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, ac mae hyn yn lleihau eu gallu i graffu a gwneud penderfyniadau wrth bennu blaenoriaethau yn y dyfodol 54

Ar hyn o bryd, ni chesglir data allweddol i fesur sut mae gwasanaethau cyngor yn cefnogi annibyniaeth pobl hŷn, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd goruchwylio gwasanaethau i bobl hŷn, a gwneud penderfyniadau ynghylch hynny 55

Ceir llawer o gynghorau nad ydynt yn cofnodi data ar y defnydd o lawer o wasanaethau a ddarperir i bobl hŷn y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol 57

Ceir perygl bod cynghorau'n newid gwasanaethau heb gynnal asesiad llawn o'r effaith bosibl ar bobl hŷn, a bod hynny'n tanseilio'u gallu i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn llawn 59

Atodiadau

Atodiad 1 – Strategaethau a rhaglenni gwaith allweddol sy'n hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn yng Nghymru 64

Atodiad 2 – Methodoleg yr astudiaeth 69

Atodiad 3 – Rhestr wirio o nodweddion allweddol er mwyn datblygu ffocws strategol ar wasanaethau i bobl hŷn 72

Atodiad 4 – Canfyddiadau'r arolwg pobl hŷn ynghylch pa wasanaethau sydd yn fwyaf pwysig i'w galluogi i fyw'n annibynnol 75

Atodiad 5 – Data ar y defnydd o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn 2014-15 79

# Adroddiad cryno




# Crynodeb

1 Mae oed cyfartalog poblogaeth y Deyrnas Unedig yn cynyddu'n gyflym. Mae Arddangosyn 1 yn dangos bod canran yr unigolion 65 oed a throsodd wedi codi o 15 y cant ym 1985 i 17 y cant yn 2010, sef cynnydd o 1.7 miliwn o bobl. Erbyn 2035, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhagamcanu mai pobl 65 oed[1] a throsodd fydd 23 y cant o gyfanswm y boblogaeth, a rhagamcenir y bydd y cynnydd ymhlith y rhai hynaf un (dros 85 oed) yn gyflymach na'r cynnydd ymhlith unrhyw oedrannau eraill.

Arddangosyn 1 – Canran y boblogaeth 65 oed a throsodd, ledled y DU

Erbyn 2035, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhagamcanu y gallai bron chwarter cyfanswm y boblogaeth fod yn 65 oed a throsodd.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban, Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon


1 Nid oes diffiniad cytunedig o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn hŷn yng Nghymru, na chytundeb cyffredinol ynghylch pa bryd y bydd rhywun yn troi'n hen. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n defnyddio'r diffiniad yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (Adran 24) lle mae pobl hŷn wedi'u diffinio fel pobl 60 oed a throsodd. Fodd bynnag, mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru'n diffinio pobl 'hŷn' fel pobl 50 oed a throsodd (T.21), ac mae Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru hefyd yn defnyddio'r ffigur 50. Mae sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn diffinio rhywun hŷn fel unrhyw un sydd yn 65 oed a throsodd.

2 Mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru'n aros yn iach, yn weithgar ac yn annibynnol heb fawr o ddibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, i eraill gall heneiddio olygu anabledd cynyddol, colli annibyniaeth a namau ar weithredoedd y corff, megis colli'r gallu i symud, colli golwg a cholli clyw. Un o'r goblygiadau o bwys sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio yw'r her o hyrwyddo annibyniaeth ac atal neu ohirio dirywiad yn iechyd ac ansawdd bywyd dinasyddion hŷn. Pobl hŷn yw prif ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, ac mae hynny hefyd yn wir yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio a'r nifer cynyddol o bobl a chanddynt gyflyrau cronig hirdymor yn rhoi straen sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a ffocws polisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw ceisio lleihau'r galw hwn a symud gwasanaethau allan o ysbytai acíwt a chartrefi nyrsio i'r gymuned.

3 Mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a gyflenwir gan 22 o gynghorau yng Nghymru'n parhau i roi pwyslais mawr ar bobl 65 oed a throsodd, ac mae'r patrwm hwn wedi parhau'n gyson dros y degawd diwethaf. Mae Arddangosyn 2 yn dangos y cafwyd cynnydd o 23 y cant yng ngwariant cynghorau Cymru ar wasanaethau gofal cymdeithasol i bobl 65 oed a throsodd dros yr wyth mlynedd rhwng 2005-06 a 2013-14. Ar sail y tueddiadau cyfredol, bydd y gwariant hwn yn parhau i godi i fwy na £750 miliwn o fewn 10 mlynedd, a gallai gynyddu'n gyflymach fyth i fodloni anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio, a chanddi ddisgwyliad oes cynyddol ac anghenion mwy cymhleth.

### Arddangosyn 2 – Gwariant cynghorau ar wasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn (65 oed a throsodd)

Dros y degawd diwethaf, cafwyd cynnydd o 23 y cant mewn gwariant ar bobl hŷn. Roedd hyn i gyfrif am £500 miliwn o wariant yn 2013-14, ac mae'n debygol o gynyddu i fwy na £700 miliwn o fewn 10 mlynedd.




Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Leol, Casgliadau Data Grŵp Meincnodi Mesur i Fyny 2005-06 hyd 2013-14, a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o linellau tuedd esbonyddol.

4 Er bod gwariant ar gynnydd, mae nifer yr oedolion sy’n derbyn gofal cymdeithasol wedi gostwng - o 81,140 yn 2006-07 i 78,111 yn 2013-14. Mae gwasanaethau bellach yn canolbwyntio mwy ar bobl ag anghenion cymhleth, ac nid yw cynghorau fel arfer yn rhoi unrhyw flaenoriaeth i gefnogi rhai ag anghenion cymhedrol neu lefel isel  Mae’r gyfran a gaiff ei gorwario o gyllideb y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ar gyfer pobl 65 oed a throsodd hefyd ar gynnydd, gan godi o 0.7 y cant o orwariant yn 2011-12 i 3.2 y cant o orwariant yn 2013-14[2]. Bu cynnydd hefyd yng ngwariant y GIG ar wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru, gyda chyllidebau’n codi o £5.2 biliwn yn 2008-09 i £5.5 biliwn yn 2013-14[3]. Fodd bynnag, ni chaiff yr wybodaeth hon am y gyllideb ei hadrodd mewn modd sy’n dangos y gwariant ar wasanaethau gofal i bobl hŷn.

5 Er bod iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig, mae gwasanaethau fel addysg, hamdden, tai, cludiant, cyfleusterau cymunedol a chefnogaeth i aros mewn swydd oll yn anhepgor er mwyn sicrhau lles pobl hŷn. Mae rhai gwasanaethau’n canolbwyntio’n benodol ar annibyniaeth, ac ar atal salwch, tra bo gwasanaethau eraill nad ydynt yn canolbwyntio’n benodol ar atal, ond sydd o fudd mawr i bobl hŷn er mwyn cynnal eu hansawdd bywyd. Ceir hefyd fanteision amlwg yn gysylltiedig â chaniatáu i bobl hŷn fyw’n annibynnol yn eu cymunedau: gall sicrhau’r bywyd gorau posib i bobl hŷn; byddant yn aros yn eu cartrefi, yn agos at ffrindiau a pherthnasau; byddant yn gallu parhau i gyfrannu i gymdeithas; a bydd yr effaith ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drud wedi’i lleihau hyd yr eithaf.

6 Mae Llywodraeth Cymru’n moderneiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Mae’r Ddeddf yn adeiladu ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru[4], a lansiwyd yn 2003, yn ogystal ag ymrwymiadau Datganiad Dulyn ar Ddinasoedd sy’n Gyfeillgar i Oed a Rhaglen Heneiddio’n Dda yng Nghymru[5]. Gyda’i gilydd, mae’r rhain yn cydnabod pwysigrwydd cynorthwyo pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth ac yn gwneud ymrwymiadau er mwyn i wasanaethau cyhoeddus gydweithio i gyflawni’r nod hwnnw. Ceir mwy o wybodaeth am y rhain yn Atodiad 1.

7 Elfen allweddol o’r Ddeddf yw atal, a bwriedir i hynny leihau’r galw am wasanaethau dwysedd a chost uchel. Mae gwasanaethau ataliol yn amrywio rhwng gwasanaethau gofal canolraddol cymharol ffurfiol a ddarperir gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ac ymyraethau a allai gynnwys cynlluniau cyfeillio, gosod canllaw neu gymorth i siopa; gwasanaethau nas darperir gan weithiwr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol o reidrwydd. Pan fydd elfen o gynhwysiant cymdeithasol wedi’i chynnwys, gellir ehangu ataliaeth i gynnwys gwasanaethau cymunedol ehangach, megis cludiant cyhoeddus, canolfannau hamdden a thai. Mae’r gwasanaethau hyn yn galluogi pobl hŷn i gadw’n ddiogel ac yn iach, a byw bywyd ac iddo werth, ystyr a phwrpas, drwy eu helpu i aros yn eu cymuned. Mae gwasanaethau cymorth yn y cartref hefyd yn costio llai na gofalu am bobl hŷn mewn gofal preswyl neu yn yr ysbyty, sy’n ffaith bwysig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

2 Uned Data Llywodraeth Leol, Casgliadau Data Grŵp Meincnodi Mesur i Fyny
3 http://gov.wales/statistics-and-research/nhs-expenditure-programme-budgets/?skip=1&lang=cy
4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn wreiddiol yn 2003. Roedd cam un y strategaeth yn trafod y cyfnod 2003-2008; cam dau’n trafod 2008-2013; a cham 3 yn trafod y cyfnod 2013-2023.
5 http://www.ageingwellinwales.com/Libraries/Documents/AWFinalWelsh.pdf

8 Er mwyn hyrwyddo gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, bydd angen i gynghorau a'u partneriaid newid y dull presennol o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Yn ogystal â hynny, bydd angen perchnogaeth y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol, a deall bod angen i rannau eraill o'r system fod ar waith er mwyn cynnal annibyniaeth. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, ni cheir unrhyw wybodaeth sylfaenol er mwyn canfod pa wasanaethau sydd ar waith, a pha wasanaethau eraill sydd eu hangen i gyflenwi lefel isel o gymorth mewn agweddau ar fywyd bob dydd a all gynyddu lles drwy alluogi pobl hŷn i fyw yn eu cartrefi eu hunain, cadw eu hannibyniaeth a lleihau'r risg o sefydliadu.

9 Mewn cyfnod lle mae'r galw am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gynnydd, mae gwariant y sector cyhoeddus yn gostwng. Rhwng 2010-11 a 2014-15, amcangyfrifwn y cafwyd gostyngiad o £471 miliwn (10 y cant) mewn Cyllid Allanol Cyfunol mewn termau real[6]. Wrth i adnoddau leihau, mae perygl i'r gwasanaethau anstatudol hyn sy'n cynnig lefel isel o ataliaeth ddioddef cyfran fwy o ostyngiadau cyllidebol wrth i gynghorau ddiogelu eu hymrwymiadau statudol.

10 Yn ystod 2015, cynhaliodd staff Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn canfod a oedd cynghorau'n gweithio'n effeithiol er mwyn helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Disgrifir ein dulliau astudio yn Atodiad 2. Roedd y rhain yn cynnwys arolwg ar-lein er mwyn i bobl hŷn ddweud wrthym am y gwasanaethau a ystyrir yn fwyaf pwysig ganddynt hwy i'w helpu i barhau i fyw'n annibynnol, a gwaith maes archwilio mewn chwe chyngor yng Nghymru. Roedd ein methodoleg hefyd yn cynnwys offeryn cyllideb a data gwasanaethau, er mwyn gwerthuso'r ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, ac adolygiad o gynlluniau a strategaethau allweddol. Cyflawnwyd ein gwaith hefyd ar y cyd â staff Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

11 Ar sail canfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi casglu, **er bod sector cyhoeddus Cymru'n cydnabod yr heriau'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, mae rhai rhwystrau allweddol yn cyfyngu ar y newid ffocws sydd ei angen er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol**.

6 Mae'r arian hwn yn cynnwys y grant cynnal refeniw gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â threthi annomestig, a rennir gan Lywodraeth Cymru ymhlith awdurdodau lleol.

## Mae strategaethau ac arweinyddiaeth cynghorau'n canolbwyntio'n ormodol ar gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol, ac nid ydynt bob amser yn cydnabod cyfraniad pwysig gwasanaethau eraill er mwyn cefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn

12 Er ein bod yn cydnabod y rôl hanfodol sydd gan gynghorau o ran arwain materion sy'n ymwneud â phobl hŷn, nid yw barn sefydliadau partner ynghylch y modd y cyflawnir y rôl honno bob amser yn gadarnhaol. Ystyrir rôl cydgysylltydd y strategaeth pobl hŷn yn allweddol gan Lywodraeth Cymru ac eraill er mwyn i gynghorau ymgysylltu ac arwain ar faterion pobl hŷn. Mae'r rôl honno wedi lleihau dros amser, gan leihau gallu'r cydgysylltydd i ddylanwadu ar drefniadau i gydweithio rhwng cynghorau, ac i fodloni anghenion pobl hŷn.

13 Ceir gormodedd o gynlluniau a strategaethau mewn cynghorau, sydd yn aml yn ddigyswllt. Mae'r rhain yn pennu blaenoriaethau a gweithredoedd sy'n anelu i gynnal neu gynyddu annibyniaeth pobl hŷn, ac yn aml yn anwybyddu cyfraniad gwasanaethau ataliol lefel isel sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol. Nododd pum deg pump y cant o sefydliadau partner mewn arolwg y datblygwyd cynllun y cyngor drwy ddefnyddio gwybodaeth gynhwysfawr o holl wasanaethau perthnasol y cyngor a'i bartneriaid, a dim ond 46 y cant oedd o'r farn fod y cynllun yn ystyried rhagolygon poblogaeth a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Dim ond 45 y cant o'r dinasyddion sy'n ymwneud yn weithredol â chynghorau y gofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau wrth i'r cyngor ddatblygu ei gynllun(iau) ar gyfer pobl hŷn.

## Er bod rhai enghreifftiau arloesol lle'r oedd cynghorau'n rhoi cymorth i bobl hŷn, ni roddir digon o werth ar wasanaethau ataliol ehangach a all helpu i leihau'r galw am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

14 Mae llawer o'r gwasanaethau ataliol sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol wedi wynebu toriadau i'w cyllidebau a'u cyllid yn gyffredinol. Fodd bynnag, gan nad oes gan gynghorau ddata da ar gyfer nifer y bobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau ataliol, ni allant reoli darpariaeth y gwasanaethau hyn mewn modd effeithiol, cynllunio darpariaeth yn y dyfodol na thargedu gweithgarwch mewn modd priodol mewn cyfnod lle bo adnoddau'n lleihau.

15 Mae saith o'r 10 o wasanaethau a ddyfarnwyd yn fwyaf pwysig gan bobl hŷn, a phedwar o'r pum gwasanaeth gorau sy'n eu helpu i fyw'n annibynnol wedi cael eu cwtogi - neuaddau cymuned (41 y cant), toiledau cyhoeddus (26.8 y cant), llyfrgelloedd (18.7 y cant) a chludiant cyhoeddus (5.7 y cant). Er ein bod yn cydnabod yr her a wynebir gan gynghorau o ran lleihau gwariant i gydbwyso cyllidebau, bydd y toriadau hyn yn cael effaith andwyol ar bobl hŷn. Mae'n bosibl hefyd na cheir arbedion i drethdalwyr wedi'r cyfan oherwydd bydd toriadau i wasanaethau ataliol yn aml yn achosi mwy o alw am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mwy acìwt fydd yn ddrytach yn y tymor canolig[7].

7 Joseph Rowntree Foundation, **The importance of 'low level' preventive services to older people**, 1998; a Kings Fund, **Preventative Social Care: Is it cost effective?** 2006

16 Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol, a grëwyd gan Lywodraeth Cymru i annog awdurdodau lleol, sefydliadau iechyd a sefydliadau tai i weithio mewn modd integredig, wedi darparu £70 miliwn yn 2014-15 a 2015-16. Gwelsom fod natur fyrdymor y cyllid, a gwendidau wrth ei ddyrannu a'i werthuso, yn golygu ei bod hi'n anodd barnu a yw'r Gronfa Gofal Canolraddol yn cefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau'n unol â'r bwriad.

## Oherwydd prinder data, ni all cynghorau ddangos effaith eu gwasanaethau o ran helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, ac mae hyn yn lleihau eu gallu i graffu a gwneud penderfyniadau wrth bennu blaenoriaethau yn y dyfodol

17 Dengys cynlluniau a strategaethau'r cynghorau ddealltwriaeth glir o'r materion y byddant yn eu wynebu yn y dyfodol wrth helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Mae'r materion hyn yn seiliedig ar boblogaeth sy'n heneiddio, y ffaith y bydd pobl yn byw'n hirach a chynnydd yn y cyflyrau a geir ymhlith pobl hŷn. Fodd bynnag, canfuom nad oedd llawer o gynghorau'n gallu dweud faint sy'n defnyddio nifer sylweddol o'r gwasanaethau ataliol y buom yn eu hadolygu. Dengys hyn fod cipio gwybodaeth o ansawdd da a chael y systemau cywir i ddadansoddi a defnyddio'r data hynny mewn modd effeithiol yn parhau i fod yn her i lawer o gynghorau.

18 Ceir perygl bod cynghorau'n newid gwasanaethau heb gynnal asesiad llawn o'r effaith bosibl ar bobl hŷn, a bod hynny'n tanseilio'u gallu i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Er bod 97 y cant o ddinasyddion hŷn a ddefnyddiai wasanaethau'n gwybod bod yn rhaid i'w cyngor greu arbedion a chwtogi gwasanaethau, dim ond 46 y cant a wyddai beth fyddai'n cael ei gwtogi, a dim ond 29 y cant oedd wedi cael gwybod sut y byddai hynny'n effeithio arnynt hwy. Gwelsom hefyd nad yw ansawdd yr wybodaeth mewn asesiadau effaith cydraddoldeb bob amser yn ddigon cadarn i ddangos effeithiau posibl, a bod hynny'n ei gwneud hi'n anodd cael darlun clir o effaith penderfyniadau ar bobl hŷn.

# Argymhellion

19 Dyma'r prif argymhellion a godai o'r gwaith a gyflawnwyd gennym:

| | Argymhelliad | Partneriaid cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn drwy:<br>• benodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn;<br>• ail-alinio gwaith cydgysylltwyr y strategaethau pobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi eiriolwr o blith yr aelodau ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a'r rhanddeiliaid. | Cynghorau |
| A2 | Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethau i bobl hŷn yn well drwy:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol; ac<br>• ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau. | Cynghorau |
| A3 | Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy:<br>• bennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu yn holl wasanaethau'r cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol, ac yn enwedig y rhai y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. | Cynghorau |

| Argymhelliad | | Partneriaid cyfrifol |
|---|---|---|
| A5 | Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:<br>• nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd yn effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt hwy. | Cynghorau |
| A6 | Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno drwy:<br>• bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf  y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif-ffrydio i dderbyn cyllid craidd; a<br>• gwella'r ymgysylltu â'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. | Y Cyngor, cyrff iechyd, partneriaid y trydydd sector a Llywodraeth Cymru |

20 Rydym hefyd wedi nodi yn Atodiad 3, y prif ofynion sicrwydd ar gyfer datblygu ffocws strategol ar wasanaethau i bobl hŷn sy'n ymateb i'r argymhellion 1 i 5 uchod, fel rhestr wirio i gynghorau adolygu eu perfformiad cyfredol.

# Rhan 1

## Mae strategaethau ac arweinyddiaeth cynghorau'n canolbwyntio gormod ar gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol, ac nid ydynt bob amser yn cydnabod cyfraniad pwysig gwasanaethau eraill er mwyn cefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn



1.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn archwilio effeithiolrwydd cynghorau wrth roi arweinyddiaeth strategol ar faterion pobl hŷn, ac yn enwedig, rôl cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn[8] o fewn awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn adolygu cynlluniau a strategaethau cynghorau ar gyfer pobl hŷn, a'u hymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol - defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid - wrth ddatblygu a chytuno ar eu cynlluniau.

## Nid yw cynghorau bob amser yn pennu'r cyfeiriad angenrheidiol er mwyn ymdrin ag anghenion pobl hŷn

1.2 Ystyrir rôl cynghorau'n hanfodol er mwyn rhoi arweiniad ar faterion pobl hŷn. Yn strategaethau Llywodraeth Cymru (gweler isod), amlygir rôl bwysig cynghorau yn hyn o beth, gan gydnabod bod arweinyddiaeth effeithiol gan gynghorau ar faterion pobl hŷn yn gallu ennyn hyder ymhlith rhanddeiliaid, drwy roi eglurhad clir ynghylch blaenoriaethau, rôl partneriaid, staff a gwasanaethau ac annog darpariaeth gydgysylltiedig ac integredig. Yn benodol, mae arweinyddiaeth glir ac atebol yn arbennig o bwysig mewn cyfnod o gyni a chwtogi gwasanaethau.

1.3 Drwy ein harolygon, canfuom for 94 y cant o aelodau etholedig a ymatebodd o'r farn fod cynghorwyr ac uwch reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Fodd bynnag, dim ond 86 y cant o aelodau etholedig a wyddai a oedd eiriolwr pobl hŷn o fewn eu cyngor,[9] ac o blith y rhain, dim ond 69 y cant oedd o'r farn fod eiriolwr pobl hŷn eu cyngor yn effeithiol.

1.4 Roedd sefydliadau partner a ymatebodd i'n harolwg - fel cymdeithasau tai, cyrff gofal a thrwsio, sefydliadau cefnogi pobl ac asiantaethau cynghori arbenigol - ychydig yn llai cadarnhaol ynghylch arweinyddiaeth cynghorau ar faterion pobl hŷn. Dim ond 64 y cant o bartneriaid a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch reolwr - y prif swyddog - a oedd yn gyfrifol am wasanaethau i bobl hŷn o fewn y cyngor lle maent yn gweithio; a dim ond 57 y cant sy'n gwybod a oes eiriolwr pobl hŷn. At hynny, dim ond 51 y cant o bartneriaid a ddywedodd eu bod yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau eu cyngor ar gyfer pobl hŷn.

8 Mae cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn fel arfer wedi mabwysiadu rôl gydgysylltiol mewn cynghorau, gan ffurfio grwpiau cynllunio a gweithio gyda grwpiau '50+' i bennu anghenion a blaenoriaethau pobl hŷn, a negodi datrysiadau. Yn y gorffennol, cefnogwyd y swyddi hyn drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, sy'n eu hystyried yn hollbwysig er mwyn sicrhau dealltwriaeth o anghenion pobl hŷn, a chynllunio ar gyfer yr anghenion hynny oddi mewn i bob awdurdod lleol.

9 Rôl yr eiriolwyr pobl hŷn yw hyrwyddo safbwyntiau pobl hŷn a chynrychioli'r safbwyntiau hynny ar yr lefelau uchaf wrth wneud penderfyniadau'n lleol o fewn cynghorau, gan weithredu fel llais yr aelodau etholedig ar faterion pobl hŷn yn nhrafodaethau'r cabinet a'r cyngor.

**Mae rôl cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn wedi lleihau dros amser, ac mae hynny'n lleihau gallu'r cydgysylltwyr i ddylanwadu ar drefniadau i gydweithio mewn cynghorau er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion pobl hŷn a'u bodloni.**

1.5 Mae **Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn 2008-2013**[10] yn cyfeirio'n helaeth at rôl cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn mewn awdurdodau lleol. Mae gan y cydgysylltwyr ran ganolog yng ngwaith cynghorau i ymgysylltu â phobl hŷn. Ystyrir hefyd bod cydgysylltwyr wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sefydlu a chefnogi fforymau 50+[11] ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi tair strategaeth ar gyfer pobl hŷn, fel a ganlyn:

Roedd **Cam Un (2003-2008)** yn rhoi'r flaenoriaeth i gynyddu gwasanaethau i bobl hŷn, a gwella ansawdd ac ymatebolrwydd y gwasanaethau hynny. Yr oedd hefyd yn cynnwys cyflwyno cynlluniau poblogaidd, megis teithiau am ddim ar y bws a sesiynau nofio am ddim i bobl hŷn, yn ogystal â phenodi Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn. Nod cam cyntaf y strategaeth oedd codi proffil anghenion pobl hŷn a sicrhau y gofynnir am eu safbwyntiau wrth ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau lleol. Dyrannwyd £13 miliwn i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn gweithredu cam cyntaf y strategaeth.

Roedd **Cam Dau (2008-2013)** yn canolbwyntio ar ystod o feysydd strategol allweddol, gan gynnwys parhau i wella iechyd a lles pobl hŷn, a ffyrdd i'w galluogi i barhau i fod yn annibynnol ac yn weithgar am gyfnod hirach. Rhoddodd cam dau hefyd flaenoriaeth i 'brif ffrydio' heneiddio i waith cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Darparwyd £7 miliwn o arian ychwanegol hefyd er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Bwriedir cynnal **Cam Tri (2013-2023)** tan 2023. Nod y cam hwnnw yw cael pobl hŷn yng Nghymru i 'gyfranogi'n llawn', datblygu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol wedi'u paratoi ar gyfer cyfnod diweddarach eu hoes drwy wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl hŷn.

1.6 Ariennir rôl y cydgysylltydd yn uniongyrchol drwy grant Llywodraeth Cymru i gynghorau. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n ystyried bod rôl y cydgysylltydd yn hollbwysig er mwyn rhoi arweiniad ar faterion pobl hŷn mewn cynghorau, ynghyd â gweithio gydag ystod eang o bartneriaid yn y gymuned leol. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw at ba mor bwysig yw hi i awdurdodau lleol ystyried pobl hŷn ym **mhob** maes polisi, drwy 'brif ffrydio' gwasanaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn annog cynghorau a rhanddeiliaid eraill i adeiladu ar waith sydd eisoes ar y gweill a gwneud gwaith pellach i ymdrin â phryderon pobl dros eu hanner cant mewn meysydd fel rheoliadau cynllunio ac adeiladu, datblygu economaidd, addysg a meithrin sgiliau, trafnidiaeth, tai a chynyddu incwm.

10 www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/829/Older%20Peoples%20Strategy%20Wales.pdf (Saesneg yn unig)
11 Grwpiau annibynnol o bobl dros eu hanner cant yw Fforymau 50+. Maent yn cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn ar draws eu hardal gyngor. Cefnogir fforymau fel arfer gan gydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn, ond aelodau'r fforwm sy'n penderfynu ar yr agenda ac sy'n ymgyrchu ym mhob cyfarfod, a byddant yn aml yn gwahodd siaradwyr, aelodau cynulliad, cynghorwyr lleol ac uwch swyddogion o'r awdurdod lleol i egluro sut mae eu polisïau a'u strategaethau'n effeithio ar bobl hŷn.

1.7 Ym mhedwaredd ran y strategaeth, mae Llywodraeth Cymru'n datgan bod awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd gwirioneddol ers lansio'r Strategaeth, a bod Cydgysylltwyr wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o'i datblygu a'i gweithredu. Bydd angen rhoi mwy o flaenoriaeth i hyn, a phwyslais ar hyn eto dros y pum mlynedd nesaf.' Yn ychwanegol at hyn, mae cam dau'r strategaeth yn datgan bod 'angen cylch gwaith corfforaethol eang ar gydgysylltwyr er mwyn gweithredu'r Strategaeth, ac y bydd angen i gydgysylltwyr dderbyn cefnogaeth gref gan reolwyr ac arweiniad cryf gan y Prif Weithredwr'.

1.8 Amlinellai cam dau'r strategaeth hefyd fwriad Llywodraeth Cymru i leihau'r cyllid a ddarperir yn benodol i gynghorau ar gyfer y rôl cydgysylltydd, gan ostwng y grant o £2.4 miliwn yn 2008-09 i £1.7 miliwn yn 2009-10. Yn y flwyddyn ganlynol - 2010-11 - byddai'r grant yn gostwng eto, i £1 miliwn, a byddai'r arian hwn yn cael ei drosglwyddo o gyllid grant i'r grant cynnal refeniw ar gyfer awdurdodau lleol. Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar ddatblygu strategaeth cam tri[12], nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei phryder y bydd 'yr her o gynnal strwythurau o'r fath yn troi'n fwyfwy anodd i awdurdodau lleol os bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno gostyngiadau pellach i'r cyllid a ddarperir ar gyfer gwaith cydgysylltu, prif-ffrydio a gweithredu (a thasgau a rolau eraill) a gyflawnir gan Gydgysylltwyr'.

1.9 Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru'n cyfleu'n glir y bydd 'y lefel hon o gyllid yn galluogi cynghorau i barhau i gefnogi'r rolau allweddol a gyflawnir gan y Cydgysylltwyr, yr Eiriolwyr a'r fforymau i rai dros eu hanner cant....mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb lleol er mwyn cyflawni nodau strategol, gan gynnwys ymrwymo adnoddau priodol i gyflawni'r nodau hynny.' Fodd bynnag, nid yw cam tri'r strategaeth, na'r cynllun cyflawni strategol cyfatebol, yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at rôl na chyfraniad cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn, er bod cam tri yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i awdurdodau lleol barhau i gydgysylltu gweithgarwch lleol. Mae hyn yn golygu nad yw rôl cydgysylltwyr, a werthfawrogir gan lawer o randdeiliaid, wedi'i chydnabod yn ffurfiol yn y strategaeth genedlaethol gyfredol, ac mae hynny'n lleihau eu hygrededd.

1.10 Gofynnwyd i holl gydgysylltwyr strategaeth pobl hŷn awdurdodau lleol sut mae eu cyngor yn helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Yn benodol, gofynnwyd am eu rôl a'r dyletswyddau eraill a amlinellir yng ngham dau'r strategaeth o ran eiriolwyr pobl hŷn a fforymau pobl hŷn. O blith yr 19 o gynghorau a ymatebodd, mae gan 14 ohonynt gydgysylltydd amser llawn, a phump ohonynt gydgysylltydd rhan-amser.

1.11 Dengys Arddangosyn 3 faint o amser y mae pob cydgysylltydd yn ei dreulio bob wythnos yn cyflawni rôl cydgysylltydd strategaeth pobl hŷn. O'r 19 o gydgysylltwyr a ymatebodd, mae wyth yn treulio llai na hanner eu hamser yn cyflawni rôl cydgysylltydd y strategaeth pobl hŷn. Mae pump o'r cydgysylltwyr hyn yn treulio llai na chwarter eu hamser yn cyflawni'r rôl hon. Cyflwynodd nifer o gydgysylltwyr hefyd sylwadau ar y gostyngiad yn yr amser yr oeddent yn ei ymrwymo i weithio ar faterion pobl hŷn dros y tair blynedd diwethaf. Canlyniad hyn oedd peidio gallu neilltuo digon o amser i gyflawni rôl cydgysylltydd, a thanseilio rôl y cyngor fel arweinydd a chydgysylltydd materion pobl hŷn.

12 http://www.wlga.gov.uk/social-services-consultation-responses/wlga-consultation-response-the-strategy-for-older-people-in-wales-phase3-2013-2023/ (Saesneg yn unig)

Arddangosyn 3 – Y ganran o amser a dreulir gan gydgysylltwyr yn cyflawni rôl cydgysylltydd y strategaeth pobl hŷn

Drwy ddefnyddio canolbwynt ystod y pedwar opsiwn isod, dengys hyn fod pob cydgysylltydd yn treulio cyfartaledd o 55 y cant o'i amser gwaith bob wythnos yn cyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â materion pobl hŷn.

| Canran yr amser a dreulir ar rôl gydgysylltu bob wythnos | Nifer yr awdurdodau lleol |
|---|---|
| 0-24 | 5 |
| 25-49 | 3 |
| 50-74 | 2 |
| 75-100 | 8 |
| Gwybodaeth heb ei darparu wrth ddychwelyd yr arolwg | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o gydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn, Ebrill 2015

1.12 Mae nifer o gydgysylltwyr hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod eu rôl wedi newid, o fod yn prif-ffrydio gwasanaethau pobl hŷn i waith beunyddiol holl wasanaethau'r cyngor ac ymgysylltu â phobl hŷn, i gefnogi rhaglenni trawsnewid y cyngor, a hynny ym maes gofal cymdeithasol i oedolion gan amlaf. Efallai bod y newid pwyslais hwn yn angenrheidiol, ond mae'n amharu ar allu'r cynghorau i gyflawni ymrwymiadau strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl hŷn. Y mae hefyd yn atgyfnerthu'r canfyddiad bod cynghorau'n parhau i ystyried pobl hŷn fel derbynwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bennaf. Gall hyn danseilio rôl gwasanaethau eraill sy'n helpu i gynnal annibyniaeth pobl, ac nid yw'n rhoi'r arweiniad sydd ei angen i hyrwyddo pwysigrwydd gwasanaethau ataliol. Y mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod amgylchedd ariannol cynghorau wedi newid, a bod angen ehangu cyfrifoldebau llawer o swyddogion wrth i doriadau cyllideb adael eu hôl.

## Er bod cynghorau wedi pennu annibyniaeth pobl hŷn yn flaenoriaeth, nid yw strategaethau a chynlluniau bob amser yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol partneriaid a gwasanaethau cyngor eraill

1.13 Ceir dealltwriaeth glir o fewn y cynghorau fod helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth ac i fyw yn eu cymunedau o fudd iddynt hwy ac i gymdeithas yn gyffredinol. Ceir manteision amlwg yn gysylltiedig â chaniatáu i bobl hŷn fyw'n annibynnol yn eu cymunedau. Gall sicrhau'r bywyd gorau posib i bobl hŷn; byddant yn aros yn eu cartrefi, yn agos at ffrindiau a pherthnasau; byddant yn gallu parhau i gyfrannu at gymdeithas; a bydd yr effaith ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drud wedi'i lleihau hyd yr eithaf.


1.14 Fodd bynnag, mae cynlluniau'r rhan fwyaf o gynghorau'n canolbwyntio ar y modd y maent yn bwriadu darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn. Nid ydynt yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu gwasanaethau drwy adrannau o'r cyngor a sefydliadau partner a all fod o gymorth i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, ar y cyd â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol llai dwys. Mae'r gwasanaethau hyn, nad ydynt yn wasanaethau iechyd nac yn wasanaethau gofal cymdeithasol, yn rhatach na'r opsiwn iechyd a gofal cymdeithasol dwys; gellir eu darparu yn y gymuned, ac maent yn aml yn hanfodol er mwyn galluogi pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth. Maent yn cynnwys:

- a gwasanaethau cymorth ymarferol sy'n rhoi ychydig o help, sy'n hyrwyddo iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl hŷn;
- b gwasanaethau cyngor a gwybodaeth sy'n darparu'r wybodaeth y mae ar bobl hŷn ei hangen i barhau i fyw'n annibynnol;
- c parhau i ddarparu cyfleusterau yn y gymuned fel toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd a neuaddau cymuned; a
- ch thai arbenigol, addasiadau tai, wardeiniaid, teleofal a chymorth fel y bo'r angen sy'n galluogi pobl hŷn i aros yn eu cartref.

1.15 Dengys Arddangosyn 4 ddarlun anghyson o ran y graddau y mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hymwreiddio yn nogfennau cynllunio cynghorau. Er bod yr holl gynghorau'n cydnabod y rhan y gall llyfrgelloedd ei chwarae er mwyn helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, llai na hanner ohonynt oedd yn cydnabod pwysigrwydd glanhau, siopa, helpu i olchi dillad a gwasanaethau garddio, ac roedd yr ymdriniaeth â llawer o feysydd eraill pwysig - cyngor ar fwyta'n iach a gwasanaethau ymweld a chyfeillio - hefyd yn amrywio'n helaeth ledled Cymru. Er bod yr holl gynghorau'n cydnabod bod helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth o fudd iddynt hwy ac i'w cymunedau, dengys hyn fod llawer ohonynt heb fod yn cynllunio na blaenoriaethu gwasanaethau er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon.

Arddangosyn 4 – Crynodeb o'r gwasanaethau ataliol sydd, yn ôl cydgysylltwyr pobl hŷn, wedi'u cynnwys yng nghynlluniau a strategaethau cynghorau Cymru ar gyfer pobl hŷn

Nid yw cynghorau bob amser yn gwerthfawrogi rôl llawer o wasanaethau ataliol wrth helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu strategaethau a'u cynlluniau.




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o gydgysylltwyr pobl hŷn, Ebrill 2015

1.16 Er hynny, canfuom fod nifer fach o gynghorau wedi cynnal archwiliad manwl o werth rhai o'r gwasanaethau hyn, gan amlinellu eu pwysigrwydd a'u cyfraniad wrth roi cymorth i bobl hŷn, gan restru gwasanaethau unigol a nodi'r sefydliadau a'r adrannau sy'n eu darparu. Er enghraifft, nododd Powys y byddai system drafnidiaeth hygyrch yn y gymuned yn fater allweddol ymhlith pobl hŷn sy'n byw mewn cymunedau gwledig ac anghysbell, er mwyn iddynt barhau i fyw'n annibynnol. Mae Cynllun Powys yn Un yn egluro pam bod trafnidiaeth yn bwysig i'w bobl hŷn, manteision hynny a sut mae'n bwriadu cyflawni'r flaenoriaeth honno. Mewn rhaglen blaenoriaeth pobl hŷn i'r bwrdd gwasanaeth lleol yn Nhorfaen, ac iddi'r teitl 'Annibynnol a Bodlon', defnyddiwyd data o arolwg o bobl hŷn er mwyn canfod pa wasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan ddefnyddwyr, a phennwyd blaenoriaethau'r rhaglen yn unol â hynny.

1.17 Er bod rhai cynghorau'n cyfeirio at y gwasanaethau hyn nad ydynt yn wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol mewn cynlluniau a strategaethau, maent yn aml heb gyfeirio at bwy fydd yn eu darparu a sut y telir amdanynt. Mewn achosion eraill, mae awdurdodau lleol yn gwneud cyfeiriadau manwl at y gwasanaethau hyn. Mewn cynlluniau a strategaethau amrywiol, mae Blaenau Gwent ac Ynys Môn yn manylu ar y gwasanaethau a ddarperir i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, pa adran o'r cyngor neu sefydliad allanol fydd yn eu darparu a sut y'u hariennir.

1.18 Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn defnyddio'u cynlluniau a'u strategaethau i amlinellu eu hymrwymiad i gydweithio a chyfuno cyllidebau fel polisi i wella darpariaeth gwasanaeth. Maent yn nodi'r cyfraniad y gall partneriaid a sefydliadau eraill eu gwneud er mwyn cyflenwi'r ystod eang o wasanaethau y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn, a'r manteision ariannol y gellir eu sicrhau o gyfuno cyllidebau.

## Mae llawer o gynghorau'n dal i ystyried pobl hŷn fel unigolion bregus sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol, ac nid yw cynlluniau cynghorau'n edrych ar anghenion pobl hŷn mewn modd cyfannol, ac mae hynny'n amharu ar eu heffeithiolrwydd

1.19 Mae'r strwythur cynllunio cyfredol sydd ar waith ar gyfer datblygu gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol mewn modd strategol yn gymhleth. Gall nifer o sefydliadau gwahanol o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol fod yn gyfrifol am wasanaethau i bobl hŷn, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hyd yn oed, a gallant berthyn i nifer o wahanol gynlluniau neu strategaethau. Canfu ein hadolygiad gyfeiriadau at gynnal neu gynyddu annibyniaeth pobl hŷn yn y cynlluniau a'r strategaethau a ganlyn a ddarperir gan gynghorau:

- Cynllun integredig sengl
- Strategaeth pobl hŷn
- Strategaeth gorfforaethol

- Cynllun gwella
- Strategaeth i bobl hŷn
- Strategaeth gymunedol
- Strategaeth tai pobl hŷn
- Strategaeth comisiynu ar gyfer pobl hŷn
- Strategaeth tai lleol
- Cynllun comisiynu cefnogi pobl
- Strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu
- Cynllun cydraddoldeb strategol
- Cynllun cyflawni'r strategaeth tai lleol


1.20 Roedd y cynlluniau a adolygwyd gennym yn cynnwys cyfeiriadau clir at yr heriau'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, ond yn ymateb i hynny drwy drafod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae tôn llawer o gynlluniau a strategaethau'n awgrymu bod pobl hŷn yn cael eu hystyried fel defnyddwyr gwasanaeth yn unig - a'r gwasanaethau hynny'n aml yn wasanaethau drud a chymhleth - yn hytrach nag fel pobl a all gyfrannu i'w cymuned. Er bod angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar lawer o bobl hŷn, ceir hefyd bobl hŷn sy'n gallu, ac yn dymuno, byw'n annibynnol yn eu cymuned, gyda chyn lleied o ymyrraeth a chefnogaeth ag sy'n bosibl. Mae'r bobl hŷn hyn yn cyfrannu i'w cymunedau lleol drwy gyflawni swyddi, drwy ryngweithio â ffrindiau a pherthnasau, drwy ddefnyddio gwasanaethau lleol a chyfrannu i'r economi leol.

1.21 Darparodd rhai cynghorau gynifer â phum cynllun neu strategaeth gyfredol oedd yn cynnwys cyfeiriadau at flaenoriaethau a chamau gweithredu a anelai i gynnal neu gynyddu annibyniaeth pobl hŷn. Yn aml, bydd y cynlluniau a'r strategaethau hyn yn cynnwys yr un blaenoriaethau, sy'n dangos bod gwaith cynllunio strategol o fewn rhai cynghorau wedi'i gydgysylltu. Fodd bynnag, gall ailadrodd blaenoriaethau achosi ansicrwydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am bennu'r blaenoriaethau hynny, a phwy sy'n gyfrifol am y camau sydd eu hangen i'w cyflawni.

1.22 Oherwydd ystod a nifer y cynlluniau a'r strategaethau a drafodai wasanaethau a gefnogai annibyniaeth pobl hŷn, roedd hi hefyd yn anodd canfod pa gynllun neu strategaeth oedd y ddogfen swyddogol. Gan fod blaenoriaethau wedi'u lledaenu ar draws nifer o gynlluniau a strategaethau, nid oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau ddogfen unigol oedd yn cyd-gasglu'r holl flaenoriaethau yr oeddent hwy a'u partneriaethau'n gweithio tuag atynt er mwyn cefnogi neu gynyddu annibyniaeth pobl hŷn. Dengys Arddangosyn 5 fod y farn ynghylch ansawdd yr wybodaeth sydd mewn strategaethau a chynlluniau cyngor yn amrywio rhwng partneriaid ac aelodau etholedig.

Arddangosyn 5 – Barn aelodau etholedig a phartneriaid ynghylch ystod yr wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys mewn cynlluniau awdurdod lleol i bobl hŷn

Mae gan bartneriaid ac aelodau etholedig farn wahanol iawn ynghylch cwmpas yr wybodaeth a ddefnyddir i ddatblygu cynlluniau cyngor.




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, arolygon ar-lein ar gyfer aelodau etholedig a sefydliadau partner, Mawrth 2015

1.23 Dim ond 55 y cant o sefydliadau partner a ymatebodd i'n harolwg a nododd fod cynllun(iau) eu cyngor wedi'u datblygu drwy ddefnyddio gwybodaeth gynhwysfawr gan holl wasanaethau perthnasol y cyngor a'i bartneriaid. Fodd bynnag, dim ond 46 y cant sydd o'r farn fod y cynllun yn ystyried rhagolygon poblogaeth a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn llawer is na'r ymatebion a gawsom gan aelodau etholedig.

## Nid yw'r trefniadau i ymgynghori â dinasyddion a phartneriaid yn ddigon cadarn i roi'r mewnwelediad, y gymeradwyaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen i gyflawni blaenoriaethau cynghorau ar gyfer pobl hŷn

1.24 Mae polisi'r Llywodraeth yng Nghymru'n pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd, ac ystyrir bod ymgysylltu'n allweddol er mwyn sicrhau bod holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n datblygu dull o ddylunio a gweithredu eu polisïau, eu rhaglenni a'u gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar ddinasyddion. Drwy ein harolwg cyhoeddus, canfuom fod 87 y cant o ddinasyddion a ymatebodd i'r arolwg yn dweud nad oedd eu cyngor wedi gofyn am eu barn fel defnyddiwr gwasanaethau cyngor yn ystod y 12 mis diwethaf.

1.25 O blith y dinasyddion hynny sy’n ymwneud yn weithredol â chynghorau fel aelodau o baneli ymgynghori neu o fforymau pobl hŷn, canfuom fod 63 y cant yn dweud bod gan eu cyngor gynllun(iau) i helpu pobl hŷn i fyw’n annibynnol, ond nad oedd y cyngor ond wedi ceisio barn 45 y cant ohonynt wrth ddatblygu ei gynllun(iau) i bobl hŷn. Yn ogystal, o blith y dinasyddion hyn a oedd yn ymwneud â chynghorau, dim ond 39 y cant a gafodd eu cynnwys gan eu cyngor wrth weithredu’r cynllun. O blith y dinasyddion hynny y gofynnwyd am eu barn ynghylch gwasanaethau cyngor, teimlai 76 y cant hefyd na chafwyd unrhyw newid na gwelliant i’r gwasanaethau dan sylw ar ôl mynegi eu barn.

Rwy'n pryderu y bydd gwasanaethau'n diflannu ac y byddaf ar fy mhen fy hun, gyda llai o gymorth, heb unrhyw deulu, ond ffrindiau oedrannus a'm ci. A yw'r cyngor yn deall go iawn sut brofiad yw dibynnu ar y gwasanaethau hyn?

Yn amlwg, dydy'r cyngor ddim wedi gwneud unrhyw ymdrech i hysbysu'r preswylwyr am gynlluniau'r dyfodol. Ee, - mae ymweliadau cartref y gofalwr wedi cael eu preifateiddio, ac mae hi wedi bod bron yn amhosib trefnu ymweliadau pan fyddwn ni i ffwrdd am gyfnodau byr.


Byddai'n fuddiol parhau i ofyn i'r rhai ohonom sy'n aelodau hŷn o'r gymuned beth yw ein barn a'n hanghenion ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gan fod ein niferoedd ar gynnydd. Mae pethau'n newid, a gallai hyn fod yn ffordd ddefnyddiol o fonitro ein hanghenion fel bo modd inni barhau i fyw'n annibynnol, os yw hynny o fewn ein gallu, rhoi cefnogaeth i eraill a pheidio bod angen gwasanaethau costus ychwanegol.

Mae Cynghorau'n gibddall ac yn fodlon rhoi terfyn ar wasanaethau heb feddwl am effaith hynny ar bobl hŷn ee, roedden nhw'n bwriadu cwtogi gwasanaethau'r Siop Iechyd Pobl Hŷn yn y Barri, sy'n darparu gwasanaethau lles, ymarfer corff a chefnogaeth i ofalwyr.

Mae'n ymddangos fel pe bai llu o sefydliadau'n bodoli i helpu 'hen bobs' fel ni, a chanddyn nhw fwriadau da, ond dydy hi ddim yn ymddangos fel pe baen nhw wedi'u cydgysylltu, ee cymorth i'r henoed/age connects. Byddai'n fuddiol cael un man cyswllt a llai o ddyblygu.

Mae'r cyngor i fod i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch sut y dylid cyflwyno toriadau, ond dydyn nhw ddim yn gwneud hynny, ac rydw i'n meddwl ei bod hi'n anochel y bydd y llyfrgelloedd yn cau, dydyn nhw ddim yn gofyn i'r bobl ymhle y dylid cyflwyno toriadau.

Nid yw'r Cyngor yn gweithredu er mwyn bodloni anghenion pobl oedrannus.



Sylwadau gan bobl hŷn ynghylch trefniadau eu cyngor i ymgysylltu â phreswylwyr

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, arolwg ar-lein i ddinasyddion, Ebrill 2015


1.26 Canfuom hefyd fod 74 y cant o aelodau etholedig o’r farn fod eu cyngor wedi cyfathrebu’n effeithiol o fewn eu sefydliad â holl gyflogeion perthnasol y cyngor ynglŷn â’i gynlluniau a’i strategaethau ar gyfer pobl hŷn. O ran cyfathrebu ar raddfa ehangach fodd bynnag, mae 64 y cant o aelodau etholedig o’r farn fod eu cyngor yn cyfathrebu’n effeithiol ynglŷn â’i gynllun(iau) â phartneriaid, ac ond 50 y cant o’r farn ei fod yn gwneud hynny â phobl hŷn.

1.27 Canfuom fod 56 y cant o sefydliadau partner a ymatebodd i’n harolwg o’r farn fod eu cyngor wedi cyfathrebu’n effeithiol â phartneriaid allanol ynglŷn â’i gynllun ar gyfer pobl hŷn. Dim ond 51 y cant o sefydliadau partner oedd yn gweithio â chynghorau i gyflenwi gwasanaethau i bobl hŷn a ddywedodd fod y cyngor wedi cael mewnbwn gan eu sefydliad wrth ddatblygu ei gynlluniau. At hynny, dim ond 35 y cant o bartneriaid oedd yn meddwl bod eu cyngor wedi cyflwyno newidiadau i’r cynllun ar sail adborth a ddarparwyd gan bartneriaid, a dim ond 33 y cant oedd o’r farn fod y cyngor wedi cyfathrebu’n effeithiol â phobl hŷn ynglŷn â’r cynllun(iau).

Nid yw'r newidiadau i wasanaethau pobl hŷn yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Cefnogi Pobl, ac nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal â defnyddwyr gwasanaeth.

Nid oes cynllun comisiynu clir i helpu cynllun y Trydydd Sector, na chynllun caffael chwaith. Mae disgwyl i'r sector gwirfoddol ddarparu gwasanaethau, ac y mae’n aml yn cael ei ystyried yn opsiwn rhad. Dydy hynny ddim yn wir, ac mae llawer o elusennau bellach heb fod yn gallu darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen gan fod eu cronfeydd yn cael eu defnyddio i gynnal gwasanaethau presennol, hyd yn oed rhai sydd ar gontract gyda'r sector cyhoeddus. .....Nid yw'r arfer parhaus yma o sefydlu contractau byrdymor yn cefnogi twf yn y sector gwirfoddol, ac yn y pen draw bydd yn golygu bod llai o wasanaethau ar gael yn rhad ac am ddim i bobl hŷn drwy elusennau.

I'n sefydliad ni, mae'r her leol o gynnal ein gwasanaethau'n cynyddu wrth i'n hadnoddau ariannol brinhau. Y mae hi gymaint anos cael cymorth grant a chyllid lles, ac mae'n niweidio ardal fel Blaenau Gwent a chanddi lefel uchel o anghenion ymhlith y boblogaeth hŷn ac o ran byw'n annibynnol.



Sylwadau gan sefydliadau partner ynghylch penderfyniad eu cyngor i gwtogi gwasanaethau
Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, partneriaid ar-lein, Ebrill 2015


1.28 Un o’r prif themâu a godai yn ein harolygon ar gyfer dinasyddion oedd yr ofn sydd gan lawer na fydd gwasanaethau ar gael pan fydd angen cymorth arnynt, er nad oedd angen iddynt ddefnyddio’r gwasanaethau hynny ar y pryd. Ymatebodd llawer drwy nodi eu pryderon y gallai cwtogi unrhyw wasanaethau cefnogol lefel isel ynysu rhai pobl hŷn sydd eisoes yn teimlo’n unig. Pwysleisiodd llawer nad oedd gan bawb deulu wrth law i helpu, ac y byddai colli’r gwasanaethau hyn yn golygu bod pobl yn dirywio ac yn colli eu hannibyniaeth ynghynt, ac mai canlyniad hynny fyddai gorfod symud i ofal preswyl.

## Rhan 2

Er bod rhai enghreifftiau arloesol lle'r oedd cynghorau'n rhoi cymorth i bobl hŷn, ni roddir digon o werth ar wasanaethau ataliol ehangach a all helpu i leihau'r galw am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol



2.1 Mae gwasanaethau'n cael eu tynnu'n ôl a meini prawf cymhwysedd yn cael eu tynhau yn sawl maes gofal cymdeithasol yn sgil gostyngiadau mewn cyllid cyhoeddus. Mae rhai achosion a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd yn ddiweddar hefyd yn awgrymu bod perygl i rai gwasanaethau sy'n cael eu hymestyn i'r eithaf fethu sicrhau urddas a darparu maeth sylfaenol i bobl hŷn. Yn y rhan hon o'r adroddiad, dadansoddir cyllidebau Llywodraeth Cymru a'r cynghorau. Ystyrir hefyd yr ystod o wasanaethau ataliol, a'u hargaeledd ledled Cymru, gan edrych ar bedair agwedd greiddiol sy'n helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol, sef:



Gwasanaethau cymorth ymarferol



Gwasanaethau cyngor a gwybodaeth



Cyfleusterau yn y gymuned



Tai a gwasanaethau seiliedig ar dai

2.2 Adolygir gwybodaeth am y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau, a yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu diogelu rhag toriadau cyllideb, prosesau asesu a mynediad a chynlluniau ar gyfer cyflwyno neu gynyddu taliadau. Ystyrir hefyd bwysigrwydd y gwasanaethau hyn i bobl hŷn yn seiliedig ar ganfyddiadau ein harolygon, a rhoddir dadansoddiad o effaith Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru.

## Yn sgil y caledi ariannol, mae'n rhaid i gynghorau wneud penderfyniadau anodd er mwyn cydbwyso cyllidebau, ac maent yn ei chael hi'n anodd cynnal gwariant ar wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol


2.3 Wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2015-16[13], cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid fod Llywodraeth Cymru, wrth fuddsoddi, yn rhoi'r flaenoriaeth i wella iechyd a lles, hybu twf a swyddi, torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau amddifadus. Dyma'r meysydd gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r flaenoriaeth iddynt, ar draul meysydd eraill, wrth bennu cyllidebau ac wrth benderfynu lle dylid cyflwyno gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, yn enwedig grantiau. Rhoddir llai o flaenoriaeth i wasanaethau eraill wrth dynnu sylw at y meysydd hyn, ac mae'r gwasanaethau hynny felly'n fwy agored i'r toriadau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu cyflwyno.

13 Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Cyllid, **Cyllideb Derfynol 2015-16**, 2 Rhagfyr 2014

2.4 Mae Llywodraeth leol yn derbyn y rhan fwyaf o'i gyllid drwy'r hyn a elwir yn Gyllid Allanol Cyfun (CAC). Mae cymharu CAC dros y cyfnod 2010-11 i 2014-15 yn gymhleth am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys grantiau yn y CAC oedd gynt yn cael eu darparu ar wahân. Er bod y weithred hon o ddad-neilltuo grantiau'n achosi cynnydd i'r CAC, nid yw o reidrwydd yn gyfystyr â chynnydd net mewn cyllid. Oddeutu £137 miliwn yw gwerth net y grantiau sydd wedi cael eu hymgorffori i'r CAC ers 2010-11 mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant). Yn ogystal, caiff y darlun ei gymhlethu yn sgil y ffaith bod budd-dal treth y cyngor wedi'i ddatganoli, a bod hwnnw wedi'i ymgorffori i'r CAC. Ar ôl addasu ar gyfer y ffactorau hyn er mwyn sicrhau cymhariaeth mor agos ag sy'n bosibl yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael, rwyf yn amcangyfrif y cafwyd gostyngiad mewn termau real o £464 miliwn (10 y cant) mewn cyllid i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru rhwng 2010-11 a 2014-15.

Arddangosyn 6 – Cyllid Llywodraeth Cymru i gynghorau 2011-12 i 2014-15

Cafwyd gostyngiad o £471 miliwn (10 y cant) i gyllid cynghorau dros y pedair blynedd diwethaf




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, dadansoddiad o gyllid Llywodraeth Cymru, Mehefin 2015

2.5 Wrth i'r galw gynyddu a'r adnoddau brinhau, mae cynghorau'n wynebu penderfyniadau anodd wrth bennu cyllidebau. Mae system Daffodil[14] Llywodraeth Cymru'n rhagweld, erbyn 2020, y ceir cynnydd o 23 y cant yn nifer y bobl dros 55 oed; cynnydd o 5 y cant yn nifer y bobl dros 75 oed; a chynnydd 72 y cant yn nifer y bobl dros 80 oed. Ar gyfer yr her hon, mae angen i gynghorau ddefnyddio'u hadnoddau cynyddol brin i gynnal, os nad cynyddu, eu gwariant ar ofal cymdeithasol. Cafwyd cynnydd o 15.8 y cant mewn gwariant ar ofal cymdeithasol personol i bobl hŷn gan awdurdodau lleol, o £0.63 biliwn yn 2008-09 i £0.73 biliwn yn 2013-14.

2.6 Er mwyn gallu diogelu gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae cynghorau wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd a chyflwyno toriadau cyllid mewn meysydd eraill, yn aml mewn gwasanaethau ataliol sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Dyma'r union wasanaethau y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (gweler Atodiad 1) yn eu hyrwyddo fel gwasanaethau sy'n hanfodol er mwyn cadw pobl yn eu cartrefi ac allan o'r gyfundrefn iechyd a gofal cymdeithasol ddrud. Isod ceir crynodeb o newidiadau, gan edrych ar feysydd gwaith sydd gyda'i gilydd yn chwarae rhan bwysig er mwyn helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad, dengys Arddangosyn 7 y cafwyd 16.8 y cant o ostyngiad i gyllidebau gwasanaethau ataliol, o £147.3 miliwn yn 2013-14 i £122.5 miliwn yn 2014-15.

### Arddangosyn 7 – Newid i gyllidebau gwasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol rhwng 2013-14 a 2014-15

Mae gwasanaethau ataliol sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn cael eu cwtogi.

| Gwasanaethau ataliol | Cyllideb 2013-14 | Cyllideb 2014-15 | Newid (+/-%) |
|---|---:|---:|---:|
| Gwasanaethau cymorth ymarferol | £34,127,940 | £30,305,053 | -11.2 |
| Gwasanaethau cyngor a gwybodaeth | £8,446,427 | £9,514,705 | 12.6 |
| Tai a gwasanaethau seiliedig ar dai | £55,848,319 | £42,554,024 | -23.8 |
| Cyfleusterau yn y gymuned | £48,910,100 | £40,062,571 | -18 |
| **Cyfanswm** | **£147,332,786** | **£122,436,353** | **-16.8** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data[15], Ebrill 2015

14 System sy'n seiliedig ar y we yw Daffodil. Fe'i datblygwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r system yn cydgasglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio'r gwasanaethau gofal y gellid bod eu hangen mewn ardal leol yn y dyfodol. Dengys gwybodaeth ymchwil a gwybodaeth o amcanestyniadau poblogaeth yr angen am ofal posibl dros yr ugain mlynedd nesaf i blant, oedolion a phobl hŷn.


15 Cwblhawyd asesiad gennym o gyllidebau cynghorau ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan gynghorau. Gofynnwyd i'r cynghorau ddarparu gwybodaeth am gyllidebau, nifer y bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth, prosesau mynediad ac ymgeisio, trefniadau atgyfeirio, codi tâl am wasanaethau, cyfyngiadau gweithredol o ran darpariaeth neu fynediad a newidiadau wedi'u cynllunio. Cafwyd ymateb gan 21 o gynghorau Cymru ar wahân i Gyngor Dinas Casnewydd. Roedd ansawdd ffurflenni'r cynghorau hefyd yn amrywio, ac nid oedd rhai'n darparu gwybodaeth fanwl am gyllidebau, trefniadau mynediad na nifer y defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer rhai o'r meysydd ataliol y buom yn eu hadolygu.

## Mae llawer o wasanaethau cymorth ymarferol sy'n rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl hŷn i fyw'n annibynnol wedi cael eu cwtogi

2.7 Mae pobl hŷn yn awyddus i gadw eu hannibyniaeth a'u hiechyd gyhyd ag y bo modd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen darparu gwasanaethau cymorth ymarferol, a all gael effaith gadarnhaol sylweddol o ran sicrhau annibyniaeth a lles parhaus pobl hŷn. Gwasanaethau fel bysus a chludiant cymunedol yw'r gwasanaethau hyn, a chymorth i lanhau, garddio a siopa. Gall y gallu i fynd allan, cadw'n weithgar a meithrin sgiliau newydd gael effaith gadarnhaol o ran helpu i bobl hŷn barhau i fyw'n annibynnol ac osgoi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drud. Yn Arddangosyn 8, nodir y gwasanaethau cymorth ymarferol a ddarperir gan gynghorau ac a adolygwyd gennym.

Arddangosyn 8 – Mae'r gwasanaethau cymorth ymarferol yr ydym wedi'u hadolygu'n cynnwys y canlynol

- **Trafnidiaeth gyhoeddus** sydd yn ffordd ddiogel a chyffyrddus i bobl hŷn allu gofalu amdanynt hwy eu hunain gyhyd ag y bo modd, ac i fod â rhan weithgar mewn cymdeithas drwy eu helpu i barhau i fod yn symudol ac annibynnol.
- **Gosod dyfeisiau diogelwch eiddo a diogelwch personol** sy'n galluogi pobl fregus i deimlo'n saff a diogel, ac i barhau i fyw gartref gyhyd ag y bo modd.
- **Cludiant cymunedol** sef cludiant o ddrws i ddrws ar gyfer pobl anabl, pobl hŷn a rhai nad oes ganddynt fynediad uniongyrchol at wasanaeth bws lleol ond sydd angen cyrchu gwasanaethau a chyfleusterau i gynnal eu hansawdd bywyd.
- **Heneiddio'n egnïol** yw'r broses o fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau iechyd, cyfranogiad a diogelwch er mwyn gwella ansawdd bywyd wrth i bobl fynd yn hŷn. Mae'n berthnasol i unigolion a grwpiau poblogaeth, ac yn galluogi pobl i wireddu eu potensial am les corfforol, cymdeithasol a meddyliol drwy gydol eu bywyd, a chymryd rhan mewn cymdeithas, gan ddarparu digon o fesurau i'w diogelu ac i ofalu amdanynt pan fydd angen.
- **Cymorth gyda mân dasgau yn y cartref** fel glanhau, llenwi ffurflenni a theithiau siopa a garddio hanfodol a garddio helpu pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartref a chadw eu hannibyniaeth.
- Mae **cynlluniau ymarfer ysgafn** yn cynnig ymarferion dwysedd isel a all helpu i wella iechyd a ffitrwydd a galluogi pobl hŷn i barhau i fod yn egnïol wrth iddynt heneiddio. Fe'u hystyrir yn bwysig er mwyn cadw'n heini, er mwyn gallu symud o fan i fan ac er mwyn bod yn annibynnol.
- Ystyrir **dosbarthiadau dysgu i oedolion** yn hollbwysig er mwyn cael y gorau o fywyd mewn unrhyw oedran. Fodd bynnag, wrth i bobl dyfu'n hŷn, daw'r cyfleoedd hyn yn bwysicach fyth a gall cyfleoedd dysgu i oedolion wella iechyd ac ansawdd bywyd pobl drwy eu cadw'n weithgar a helpu i atgyfnerthu cysylltiadau.
- Mae cynlluniau **gwirfoddoli**'n rhoi cyfle i bobl hŷn ddefnyddio'u sgiliau a'u harbenigedd i helpu eraill, ond hefyd o fudd am eu bod yn cadw pobl yn weithgar, ac yn rhoi rhan iddynt yn eu cymuned.
- Mae cynlluniau **ymweld a chyfeillio** yn helpu pobl hŷn sydd wedi'u hynysu o gymdeithas, neu sydd mewn perygl o gael eu hynysu o gymdeithas, drwy drefnu bod cyfaill gwirfoddol yn ymweld â hwy'n rheolaidd yn eu cartref yn gwmni iddynt.




2.8 Er bod yr holl gynghorau'n cydnabod pa mor werthfawr yw'r gwasanaethau hyn er mwyn helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, roedd argaeledd gwasanaethau'n gyfyngedig yn y rhan fwyaf o ardaloedd ac yn lleihau oherwydd pwysau ar adnoddau a'r angen i gydbwyso cyllidebau. Er enghraifft, canfuom fod 11 o gynghorau'n sicrhau bod cyfleoedd dysgu i oedolion ar gael i bobl hŷn, sef y ddarpariaeth fwyaf o blith yr holl wasanaethau cymorth ymarferol y buom yn eu hadolygu, ond mewn ardaloedd eraill, roedd gwasanaethau cymorth ymarferol yn gyfyngedig. Dim ond un cyngor a weithredai gynllun cyfeillio, dim ond pedwar cyngor a gyflenwai wasanaethau i helpu pobl i lanhau eu cartref a thrin eu gardd, a darparai saith gynlluniau gwirfoddoli i bobl hŷn. Dywedodd llawer o gynghorau eu bod yn gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu'r gwasanaethau hyn, ond oherwydd cyfyngiadau ar wybodaeth reoli a gwybodaeth am berfformiad, nid oeddent yn gallu cadarnhau'r safonau gwasanaeth presennol na'r niferoedd a ddefnyddiai'r gwasanaethau hynny.

2.9 Mae lefel y gwariant gan gynghorau ar gymorth ymarferol wedi gostwng ers y flwyddyn ariannol flaenorol, o £34.1 miliwn i £30.3 miliwn, sef gostyngiad o 11.2 y cant. O blith yr 11 o feysydd a adolygwyd gennym, dengys Arddangosyn 9 fod cyllideb pedwar ohonynt naill ai wedi codi neu wedi'u cynnal, a bod toriadau wedi'u cyflwyno i gyllidebau saith ohonynt. O ran cyfran, cafwyd y toriadau mwyaf, sef gostyngiad o 28 y cant, ym maes dysgu i oedolion (yn enwedig mewn cyrsiau heb lawer o addewid am gyflogaeth), mewn prosiectau heneiddio'n weithgar, sef gostyngiad o 18.7 y cant, cludiant cymunedol, sef gostyngiad o 11.3 y cant a chludiant cyhoeddus, sef gostyngiad o 5.7 y cant. Wrth gyflawni ein gwaith maes, canfuom nad oedd cynghorau wedi cytuno eto ar eu hopsiynau ar gyfer cyllideb 2015-16, ac nad oeddent wedi penderfynu a ddylid cyflwyno toriadau i gyllidebau'r gwasanaethau hyn.

## Arddangosyn 9 – Gwariant ar wasanaethau cymorth ymarferol yn 2013-14 a 2014-15

Cafwyd gostyngiad o £3.8 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yng ngwariant cynghorau ar wasanaethau cymorth ymarferol.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau, ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data, Ebrill 2015

2.10 Drwy ein harolwg, gofynnwyd i bobl hŷn ddweud wrthym am safonau'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau cymorth ymarferol, ac asesu a yw argaeledd y gwasanaethau hyn yn gostwng neu ar gynnydd; gwerthuso i ba raddau y mae'r cyngor wedi cyfathrebu'n effeithiol â hwy ynghylch newidiadau i'r ddarpariaeth; a blaenoriaethu'r gwasanaethau sydd yn fwyaf pwysig i'w helpu i barhau i fyw'n annibynnol. Dengys Arddangosyn 10 for llawer o'r gwasanaethau cymorth ymarferol a adolygwyd gennym yn cael eu hystyried yn bwysig gan bobl hŷn i'w helpu i gadw eu hannibyniaeth. Roedd lefel eu pwysigrwydd yn amrywio, rhwng cludiant cyhoeddus, lle'r oedd 82 y cant o bobl hŷn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod hynny'n bwysig i'w helpu i gadw eu hannibyniaeth, a chynlluniau ymweld â'r cartref a chyfeillio, lle'r oedd 46 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.

### Arddangosyn 10 – Cymhariaeth o'r gwasanaethau cymorth ymarferol y mae pobl hŷn wedi dweud wrthym sydd yn fwyaf pwysig i'w galluogi i fyw'n annibynnol ochr yn ochr â'r newidiadau i gyllidebau'r cyngor ar gyfer y gwasanaethau hyn

Mae pobl hŷn yn cydnabod rôl bwysig gwasanaethau cymorth ymarferol i'w helpu i fyw'n annibynnol, ond mae cyllidebau saith o'r meysydd a adolygwyd gennym wedi gostwng, gan gynnwys pedwar o'r pum gwasanaeth cymorth ymarferol y mae dinasyddion yn eu gwerthfawrogi fwyaf.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data, Ebrill 2015

2.11 Roedd gan ymatebwyr i’n harolwg a oedd wedi defnyddio gwasanaethau cymorth ymarferol farn gymysg ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau cymorth ymarferol yr oeddent wedi’u derbyn. Yn benodol, roedd llawer yn cydnabod pwysigrwydd cludiant cyhoeddus a chymunedol i’w helpu i fyw’n annibynnol, ac yn pryderu y byddai gostyngiadau i gyllidebau’r gwasanaethau hyn yn lleihau eu symudedd i raddau sylweddol, ac yn eu gadael wedi’u hynysu.




Sylwadau gan bobl hŷn ynghylch gwasanaethau cymorth ymarferol
Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, arolwg ar-lein i ddinasyddion, Ebrill 2015

## Mae gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi cael eu cynnal i raddau helaeth, ond gwasanaethau cyffredinol i'r holl ddinasyddion yw llawer o'r rhain

2.12 Ystyrir gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth yn faes gweithgarwch hanfodol i unigolion sydd angen gwasanaethau a chymorth i barhau i fyw'n annibynnol, neu a allai fod angen gwasanaethau a chymorth i wneud hynny yn y dyfodol. Gall cael gwybodaeth dda a chywir helpu pobl hŷn i gadw rheolaeth ar eu bywydau, a chan fod mwy o wybodaeth ar gael nag y mae rhywun yn tybio, mae codi ymwybyddiaeth a rheoli gwybodaeth yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae Arddangosyn 11 yn rhoi crynodeb o'r gwasanaethau cynghori a ddarperir gan gynghorau, naill ai'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth, ac a adolygwyd gennym.

Arddangosyn 11 – Dyma'r gwasanaethau cynghori penodol a adolygwyd gennym

- Gwasanaethau cynghori ar **hawliau lles** sy'n darparu gwybodaeth a chymorth er mwyn i bobl hŷn wneud cais am y budd-daliadau y mae hawl ganddynt i'w derbyn, a'u sicrhau;
- **Ymgyrchoedd galwyr ffug** sy'n annog pobl i gwestiynu a yw'r sawl sydd ar yr ochr arall i'r drws, neu ar ben arall y llinell ffôn, yn dweud y gwir ynghylch pwy ydyw;
- **Archwiliadau diogelwch yn y cartref** i asesu'r risg o dân yn y cartref a rhoi mesurau ar waith, fel larymau mwg, i gadw pobl hŷn yn ddiogel;
- **Cynlluniau croeso adref o'r ysbyty** sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth ymarferol ar ôl i gleifion gael eu rhyddhau o'r ysbyty, neu ar ôl derbyn triniaeth mewn sefydliad iechyd;
- **Cyngor ac eiriolaeth arbenigol annibynnol** sy'n helpu i ddiogelu hawliau pobl hŷn a'u grymuso i wneud penderfyniadau deallus ynghylch yr hyn sydd ei angen arnynt;
- Gall **cyngor ynghylch cadw'n gynnes**, yn enwedig dros fisoedd y gaeaf, helpu i atal annwyd, ffliw neu gyflyrau iechyd mwy difrifol fel trawiad ar y galon, strôc, niwmonia ac iselder; a
- **Chyngor ynghylch bwyta'n iach** i hyrwyddo pwysigrwydd diet iach er mwyn lleihau'r risg o ddatblygu clefyd coronaidd y galon, a lleihau'r risg o ddiabetes a phwysedd gwaed uchel.



2.13 Gellir rhannu gwasanaethau cynghori'n fras i ddau faes ar wahân: gwasanaethau cyffredinol sy'n darparu lefel gyffredinol o gyngor sydd ar gael i'r holl breswylwyr, megis cyngor ynghylch hawliau lles a budd-daliadau; a chyngor arbenigol, sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â materion pobl hŷn, ac i ymdrin â risgiau ac anghenion penodol.

2.14 Canfuom fod argaeledd, hygyrchedd ac effaith gwasanaethau cynghori'n amrywio'n helaeth ar draws cynghorau Cymru. Dim ond tri chyngor sy'n darparu cynllun croesawu adref o'r ysbyty, o gymharu ag 18 y cant sy'n gweithredu ymgyrchoedd galwyr ffug. Fodd bynnag, pan na fydd cynghorau'n darparu gwasanaethau cynghori'n uniongyrchol, caiff y rhain yn aml eu comisiynu gan bartneriaid o'r sector gwirfoddol - Age Cymru gan amlaf[16] - ac mae llawer o gynghorau hefyd yn talu'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cynghori annibynnol yn ogystal â darparu eu gwasanaethau eu hunain yn uniongyrchol.


16 Elusen i holl bobl hŷn Cymru yw Age Cymru, ac mae'n ymgyrchu i wella bywyd pob unigolyn hŷn.

2.15 Mae'r trefniadau ar gyfer mynediad i wasanaethau cynghori hefyd yn amrywio'n helaeth. Ychydig iawn sy'n darparu gwasanaethau'n benodol ar gyfer pobl hŷn, ac mae'r rhan fwyaf yn gweithredu gwasanaethau cyffredinol sydd ar agor i'r holl breswylwyr. Mae'r gwasanaethau mwy cyffredinol eu natur - megis cyngor ynghylch hawliau lles - yn gweithredu heb orfod atgyfeirio neu lenwi ffurflen gais, tra bo angen llenwi ffurflen gais a derbyn asesiad neu atgyfeiriad gan weithiwr proffesiynol ar gyfer y gwasanaethau mwy arbenigol sydd wedi'u targedu, fel y gwasanaeth croesawu adref o'r ysbyty. Fodd bynnag, oherwydd yr amrywiaeth eang o ddulliau sydd ar waith, mae safon y gwasanaeth a dderbynnir gan bobl hŷn ag anghenion tebyg yn amrywio ar hyn o bryd.

2.16 Dengys Arddangosyn 12 gynnydd o 12.6 y cant mewn gwariant cyffredinol ar wasanaethau cynghori i bobl hŷn, gan godi o £8.4 miliwn yn 2013-14 i £9.5 miliwn yn 2014-15. O'r wyth maes y buom yn eu hadolygu, roedd cyllidebau chwech ohonynt wedi codi a chyllid dau wedi gostwng, gyda'r newid mwyaf mewn cyngor ar fwyta'n iach, sef 40.5 y cant. Wrth gyflawni ein gwaith maes, canfuom hefyd fod nifer o gynghorau'n bwriadu lleihau gwariant ar y gwasanaethau hyn yn 2015-16, ond bod y rhan fwyaf ohonynt yn dal heb gytuno ar eu hopsiynau ar gyfer y gyllideb. Canfuom hefyd nad oedd yr un cyngor yn codi tâl am wasanaethau cynghori, ac nad oedd unrhyw gynlluniau i gyflwyno taliadau yn 2015-16.

Arddangosyn 12 – Gwariant ar wasanaethau cynghori yn 2013-14 ac yn 2014-15, a'r nifer a ddefnyddiodd y gwasanaethau hyn yn 2014-15

Cafwyd cynnydd o £1 miliwn yng ngwariant cynghorau ar wasanaethau cynghori yn 2014-15.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau, ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data, Ebrill 2015

2.17 Fodd bynnag, gan nad oes gan lawer o gynghorau ddata da ar y defnydd o wasanaethau, ni allant reoli darpariaeth y gwasanaethau hyn mewn modd effeithiol, na chynllunio darpariaeth yn y dyfodol drwy dargedu gweithgarwch er mwyn sicrhau effaith fwyaf llesol wrth i adnoddau brinhau. Er enghraifft, cafwyd gostyngiad o 14.1 y cant yng nghyllid cynghorau ar gyfer galwyr ffug rhwng 2013-14 a 2014-15, er bod y gwasanaethau hynny'n cyrraedd bron 22,000 o gartrefi. Mewn cymhariaeth, cafwyd 85.6 y cant o gynnydd yng nghyllidebau Age Cymru, er mai llai na 3,000 o bobl hŷn a ddefnyddiai'r gwasanaeth hwnnw.

2.18 Dengys Arddangosyn 13 fod yr holl wasanaethau cynghori a adolygwyd gennym yn cael eu hystyried yn bwysig gan bobl hŷn er mwyn helpu i gadw eu hannibyniaeth. Roedd lefel eu pwysigrwydd yn amrywio, rhwng cyngor ar fwyta'n iach lle'r oedd 51 y cant o bobl hŷn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod hynny'n bwysig, ac archwiliadau diogelwch yn y cartref lle'r oedd 75 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Mynegodd ymatebwyr ein harolwg a oedd wedi defnyddio gwasanaethau cynghori eu barn ynghylch argaeledd ac ansawdd gwasanaethau, gan amrywio rhwng barn gadarnhaol iawn a barn negyddol iawn. Roedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr farn gadarnhaol ynghylch rhaglenni cynghori ar faterion fel budd-daliadau lles, bwyta'n iach, galwyr ffug, archwiliadau diogelwch y cartref a chadw'n gynnes. Ystyrir bod y rhaglenni hyn yn werthfawr, a'u bod yn gwella o hyd i raddau helaeth. Fodd bynnag, ystyriai'r ymatebwyr fod cynlluniau croesawu adref o'r ysbyty'n wael iawn ac yn aneffeithiol.

### Arddangosyn 13 – Cymharu'r gwasanaethau cyngor a gwybodaeth sydd yn fwyaf pwysig yn ôl pobl hŷn i'w galluogi i fyw'n annibynnol yn erbyn y newidiadau i gyllidebau'r cyngor ar gyfer y gwasanaethau hyn

Mae pobl hŷn yn cydnabod rôl bwysig yr holl wasanaethau cynghori i'w helpu i fyw'n annibynnol, ac mae cyllidebau pump o'r saith o wasanaethau y buom yn eu hadolygu wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.




Ffynhonnell: Arolwg dinasyddion Swyddfa Archwilio Cymru, Ebrill 2015, a dadansoddiad o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data, Ebrill 2015

2.19 Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd cael un man cyswllt syml er mwyn cael gafael ar wybodaeth, a hefyd at y ffaith bod defnydd cynyddol o gyfryngau digidol yn rhwystr i rai pobl hŷn, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd eang lle ceir gwasanaeth band eang gwael. Mynegodd nifer o ymatebwyr yr arolwg yn glir y byddent wedi defnyddio gwasanaethau pe baent yn gwybod amdanynt, a mynegodd eraill nad oedd rhai gwasanaethau i bobl hŷn a hyrwyddir gan gynghorau bellach ar gael, a bod hynny'n gamarweiniol ac yn peri dryswch. Roedd ymatebwyr yr arolwg hefyd yn pryderu bod gwasanaethau cynghori'r sector gwirfoddol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, naill ai'n cael eu cwtogi neu eu cau, a bod hynny'n amharu ar eu gallu i fod yn annibynnol.




Sylwadau gan bobl hŷn ynghylch gwasanaethau cyngor a gwybodaeth
Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, arolwg ar-lein i ddinasyddion, Ebrill 2015

## Mae argaeledd a mynediad at wasanaethau cymorth tai a seiliedig ar dai i bobl hŷn wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf

2.20 Gall mynd i'r afael ag anghenion tai pobl hŷn leihau'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chost y gwasanaethau hynny, i raddau sylweddol, a gwella ansawdd bywyd y bobl hynny hefyd. I lawer o bobl hŷn, eu cartref a'r ardal gyfagos yw canolbwynt eu bywyd. Yn aml, bydd gan bobl ddegawdau o atgofion yn gysylltiedig â'u cartref a'u cymdogaeth, ac mae ymchwil i benderfyniadau tai gan bobl 60 oed a throsodd wedi canfod bod dyluniad, ansawdd a safon tai yn ffactor hollbwysig er mwyn i bobl allu parhau i fyw'n annibynnol[17]. Mae Arddangosyn 14 yn nodi'r gwasanaethau tai a chymorth seiliedig ar dai a adolygwyd gennym, a ddarperir gan gynghorau, yn uniongyrchol neu mewn partneriaeth.

### Arddangosyn 14 – Mae'r gwasanaethau tai a chymorth seiliedig ar dai yr ydym wedi'u hadolygu yn cynnwys y canlynol

- **Tai gofal ychwanegol** yw tai arbenigol sy'n galluogi pobl i ofalu amdanynt eu hunain am gyfnod hwy, ond sydd hefyd yn cynnig mynediad at ofal a gwasanaethau eraill ar yr un safle, sy'n eu helpu i gadw eu hannibyniaeth.
- **Tai gwarchod** yw tai sy'n cynnig cyfle i bobl hŷn fyw'n annibynnol yn eu fflat eu hunain, gyda sicrwydd system larwm ac/neu warden. Unedau hunangynhaliol bychain, neu ystafelloedd sengl yw'r fflatiau neu'r byngalos fel arfer, mewn cyfadeilad sydd yn aml yn cynnwys ardal ystafell gyffredin i gymdeithasu ynddi.
- **Tai wedi'u dynodi i'r henoed** yw tai sy'n cael eu gosod i bobl hŷn yn unig, ond nad ydynt yn cynnwys cymorth warden, ystafelloedd a chyfleusterau cyffredin/a rennir na gwasanaethau eraill arbenigol ar y safle.
- **Technoleg gynorthwyol** – term ymbarél sy'n cynnwys dyfeisiau cynorthwyol, dyfeisiau y gellir eu haddasu a dyfeisiau adsefydlu sy'n hyrwyddo mwy o annibyniaeth drwy alluogi pobl i gyflawni tasgau a oedd gynt yn amhosib neu'n anodd iawn iddynt.
- **Teleofal** yw systemau sy'n cynnig ffordd i ofalu am yr henoed a phobl sy'n llai abl yn gorfforol o bell, gan ddarparu'r gofal a'r tawelwch meddwl sydd ei angen i'w galluogi i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain. Er enghraifft, gall synwyryddion fod o gymorth i bobl â salwch fel dementia, neu bobl sydd mewn perygl o gael codwm.
- **Wardeiniaid symudol** – sef wardeiniaid sy'n teithio o fan i fan yn hytrach nag aros ar un safle. Mae'r rhain yn gweithio ar draws ardal gyngor ac yn ymateb i alwadau argyfwng drwy larymau cartref, llinynnau tynnu a thechnoleg gynorthwyol.
- **Cymorth fel y bo'r angen** yw gwasanaeth sy'n darparu cymorth cysylltiedig â thai i oedolion (dros 16 oed) sy'n agored i niwed, i'w galluogi i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen fel arfer o natur fyrdymor (llai na dwy flynedd), ac yn cynnwys yr hyblygrwydd i roi cymorth i unigolion pa le bynnag y maent yn byw - sy'n wahanol i wasanaethau seiliedig ar lety, lle bo'r cymorth yn gysylltiedig â llety neilltuol.



17 Institute for Applied Health and Social Policy, **Living Well in Later Life: An Agenda for National and Local Action to Improve the Lives of Older People in Britain in the 21st century**, Joseph Rowntree Foundation, 2003

- Darperir **grantiau cyfleusterau i'r anabl** gan gynghorau i dalu am addasiadau hanfodol ar dai er mwyn helpu pobl anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Gall y grant dalu am newidiadau sy'n hanfodol yn nhyb y cyngor er mwyn i'r unigolyn anabl fyw bywyd annibynnol.
- Mae **Gofal a Thrwsio Cymru'n** cynnig gwasanaethau i'r rhwydwaith o 22 o asiantaethau gofal a thrwsio ledled Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am bolisi a digwyddiadau briffio, hyfforddi a rhwydweithio, cydgysylltu'r System Wybodaeth Gofal a Thrwsio genedlaethol, cymorth asiantaethau, a chydgysylltu ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru.
- Gwasanaeth trwsio ac/neu addasu ymatebol brys a gynigir yn rhad ac am ddim yw'r **Rhaglen Addasiadau Brys**. Fe'i gweithredir drwy asiantaethau gofal a thrwsio i gynorthwyo pobl hŷn neu bobl ag anableddau corfforol, sydd yn berchen feddianwyr neu'n denantiaid preifat, i ddychwelyd o'r ysbyty heb unrhyw oedi diangen, ac atal damweiniau yn y cartref a allai achosi i'r bobl hynny gael eu derbyn i'r ysbyty. Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru ac fe'i darperir ar y cyd â Gofal a Thrwsio Cymru.
- Mae gwasanaethau **Tasgmon** yn trefnu a chyflawni mân dasgau DIY o amgylch y cartref. Mae cost y tasgau fel arfer yn isel, ond gallant fod o fudd mawr i ddeilydd y tŷ.

2.21 Gellir rhannu gwasanaethau tai a chymorth seiliedig ar dai i dri chategori eang:


- Darparu tai'n uniongyrchol i bobl hŷn, sy'n amrywio rhwng llety lefel isel heb gymorth, fel byngalos neu fflatiau a thai arbenigol sy'n cynnig gofal ychwanegol. Mae'r rhain yn darparu llety hunangynhaliol a mynediad at gymorth ac/neu ofal ar yr un safle.
- Mae gwasanaethau a ddarperir i'r cartref yn galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Mae'r rhain yn amrywio rhwng cymorth beunyddiol ar y safle gan warden neu weithiwr cymorth a gosod cyfarpar arbenigol yn y cartref, fel larwm cymunedol neu synwyryddion codymau a ddefnyddir mewn argyfwng yn bennaf.
- Mae gwelliannau ffisegol yn gweithio i addasu'r cartref presennol, gan amrywio rhwng mân waith ac addasiadau, fel gosod canllawiau gafael, er mwyn addasu'r cartref i fodloni anghenion penodol unigolyn anabl.

2.22 Canfuom mai ond tri chyngor sy'n darparu tai gofal ychwanegol yn uniongyrchol, ac mai ond 11 o gynghorau sy'n rheoli llety gwarchod a llety wedi'i ddynodi i'r henoed yn uniongyrchol. O ran technoleg gynorthwyol a darparu cymorth i'r cartref, roedd argaeledd y gwasanaeth yn amrywio rhwng saith cyngor a gomisiynai wasanaethau cymorth fel y bo'r angen i bobl hŷn ac 19 o gynghorau a ddarparai wasanaethau technoleg gynorthwyol. O ran gwasanaethau i addasu a gwella'r cartref, prin oedd y cynghorau a ddarparai'r rhain yn uniongyrchol y tu allan i grantiau cyfleusterau i'r anabl, ac roedd pob un ohonynt yn gweithio mewn partneriaeth â Gofal a Thrwsio Cymru. Er mwyn cael mynediad at y rhan fwyaf o wasanaethau tai, mae angen llenwi ffurflen gais ac asesu cymhwysedd. I dderbyn llawer o wasanaethau cymorth fel y bo'r angen, technoleg gynorthwyol a theleofal, ceir gofyniad ychwanegol am atgyfeiriad gan gyrff/wasanaethau proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau tai a chymorth seiliedig ar dai'n gweithredu rhestrau aros.

2.23 Dengys Arddangosyn 15 y cafwyd gostyngiad o 23.8 y cant mewn gwariant cyffredinol ar wasanaethau tai a gwasanaethau cymorth seiliedig ar dai, o £55.8 miliwn yn 2013-14 i £42.5 miliwn yn 2014-15. O'r 12 maes a adolygwyd gennym, roedd cyllideb chwech ohonynt wedi'u cwtogi, gyda'r toriadau mwyaf mewn gwariant ar grantiau cyfleusterau i'r anabl (36.1 y cant) a gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen (28.3 y cant). Mae'n arferol codi tâl am wasanaethau tai a gwasanaethau cymorth seiliedig ar dai, er bod rhai o'r gwasanaethau, fel grantiau cyfleusterau i'r anabl, yn seiliedig ar brawf modd. Canfuom fod cynghorau'n dal i ystyried a ddylid cyflwyno toriadau pellach ac/neu gyflwyno/gynyddu taliadau am y gwasanaethau hyn yn 2015-16, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r cynghorau wedi pennu eu cyllidebau'n derfynol wrth gyflawni ein gwaith maes.

Arddangosyn 15 – Gwariant ar wasanaethau tai a chymorth seiliedig ar dai yn 2013-14 a 2014-15, a'r nifer a ddefnyddiodd y gwasanaethau hyn yn 2014-15

Cafwyd gostyngiad o £13.3 miliwn yn 2014-15 yng ngwariant cynghorau ar wasanaethau tai a chymorth seiliedig ar dai.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau, ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data, Ebrill 2015

2.24 Mae pobl hŷn hefyd yn cyfleu'n glir pa wasanaethau tai sydd bwysicaf i'w helpu i fyw'n annibynnol. Dengys Arddangosyn 16 yr ystyrir bod gwelliannau ffisegol i addasu'r cartref cael effaith fwy cadarnhaol ar annibyniaeth na mathau eraill o gymorth yn gysylltiedig â thai. Er enghraifft, mae pobl hŷn yn cydnabod bod grantiau cyfleusterau i'r anabl, gwaith tasgmon, neu fân addasiadau i'r cartref presennol yn bwysicach i'w helpu i barhau i fyw'n annibynnol na mathau eraill o wasanaethau tai. I raddau cymharol, mae'r rhain hefyd yn rhatach ac yn cael mwy o effaith na mathau eraill o wasanaethau tai. Er enghraifft, cyfanswm cyllidebau'r gwasanaethau tasgmon yn 2014-15 oedd £0.4 miliwn, a defnyddiodd 4,800 o bobl y gwasanaeth. Roedd cyllidebau tai gofal ychwanegol yn fwy na £4 miliwn, gan helpu 753 o bobl.

2.25 Nid awgrymu yr ydym fod un gwasanaeth yn bwysicach neu o werth mwy nag unrhyw wasanaeth arall. O'n harchwiliad, mae'n glir bod gan bobl hŷn wahanol anghenion y bydd angen eu bodloni ar wahanol ar adegau, a thrwy wahanol fathau o wasanaeth. Bydd rhai o'r rhain yn ymwneud yn benodol â'r cartref cyfredol, drwy ddarparu mân waith ac addasiadau, tra bydd gwasanaethau eraill yn cynnig cymorth mwy dwys ar-safle, mewn lleoliad arbenigol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lleihau cyllid mewn un math o ddarpariaeth yn cael sgil-effaith ar raglenni gwaith eraill ac, yn y pen draw, yn tanseilio annibyniaeth pobl hŷn. Mae angen i gynghorau felly sicrhau eu bod yn deall cyfraniad ac effaith gwahanol wasanaethau, ac ar gyfer hyn mae angen gwybodaeth o ansawdd da am fewnbwn (cyllidebau), allbwn (y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth) ac effaith (y canlyniad a fwriedir). Mae ein hadolygiad yn awgrymu bod cipio gwybodaeth o ansawdd da a chael y systemau cywir i ddadansoddi a defnyddio'r data hynny mewn modd effeithiol yn parhau i fod yn her i lawer o gynghorau.

Arddangosyn 16 – Cymharu'r gwasanaethau tai a chymorth seiliedig ar dai sydd yn fwyaf pwysig yn ôl pobl hŷn i'w galluogi i fyw'n annibynnol yn erbyn y newidiadau i gyllidebau'r cyngor ar gyfer y gwasanaethau hyn

Mae pobl hŷn o'r farn fod darparu gwasanaethau i addasu neu wella'r cartref presennol yn bwysicach i'w helpu i gadw eu hannibyniaeth na mathau eraill o wasanaethau tai, ond mae cyllidebau'r gwasanaethau pwysicaf wedi cael eu cwtogi.




Ffynhonnell: Arolwg dinasyddion Swyddfa Archwilio Cymru, Ebrill 2015, a dadansoddiad o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data, Ebrill 2015

2.26 Rhoddodd preswylwyr a gwblhaodd ein harolwg sylwadau cadarnhaol ynghylch effaith grantiau cyfleusterau i'r anabl, y Rhaglen Addasiadau Cyflym a gwasanaethau tasgmon. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod y gwasanaethau hyn yn llawer anos eu cyrchu, bod yr amser a gymerir i'w derbyn ar gynnydd a bod taliadau amdanynt yn dechrau codi. Cafwyd safbwyntiau cymysg ynghylch tai arbenigol. Roedd llawer yn beirniadu colli wardeiniaid preswyl ar-safle, ac ystyriwyd bod wardeiniaid symudol yn ddrytach a hefyd yn llai effeithiol. Er bod Teleofal a thechnoleg gynorthwyol ar gynnydd ac yn cael eu hystyried yn rhwyd diogelwch defnyddiol, roeddent hefyd yn destun beirniadaeth, yn enwedig lle'r oedd landlordiaid wedi trosglwyddo'r ddarpariaeth larwm i ganolfannau galw cwmnïau allanol a weithredai y tu allan i Gymru. Cyfeiriodd nifer at ymateb gwael gan wasanaethau cwsmeriaid pan nad oedd gweithredwyr larymau'n gyfarwydd â chymuned y defnyddiwr gwasanaeth. Teimlai pobl hŷn fod hynny'n amharu ar yr ymateb brys yr oeddent yn ei dderbyn.

## Bu gostyngiad yn nifer y cyfleusterau cymunedol y mae cynghorau'n berchen arnynt sy'n helpu pobl hŷn i barhau i fyw gartref

2.27 Mae cyfleusterau cymunedol fel toiledau cyhoeddus, canolfannau dydd a chymuned a llyfrgelloedd, yn chwarae rhan bwysig er mwyn helpu pobl hŷn i barhau i fod yn weithgar, i ymgysylltu â'u cymuned a pharhau i fyw'n annibynnol. Ceir pryder mawr ymhlith pobl hŷn fod y gwasanaethau hyn, a ddisgrifir ganddynt yn aml fel 'achubiaeth', mewn perygl o ddiflannu oherwydd y pwysau cyfredol ar gyllidebau cynghorau Cymru. Yn Arddangosyn 17, nodir y cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gynghorau ac a adolygwyd gennym.

Arddangosyn 17 – Mae'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol yr ydym wedi'u hadolygu'n cynnwys y canlynol


- **Toiledau cyhoeddus** sy'n rhoi'r rhyddid, yr annibyniaeth a'r hyder sydd ar bobl hŷn ei angen i fyw bywydau llawn a gweithgar.
- **Llyfrgelloedd** - nid darparu llyfrau, cyfrifiaduron a chyfleoedd dysgu yn unig a wna'r rhain. Maent yn amgylchedd ysgogol sy'n galluogi pobl hŷn i fynd allan a chwrdd â phobl.
- **Neuaddau cymuned** - mae ganddynt gyfoeth o hanes, ac maent yn gweithredu fel canolbwynt mewn cymunedau i bobl o bob oed. Maent hefyd yn aml yn bodoli o ganlyniad i weithredu ar ran y preswylwyr er mwyn ymdrin ag angen neu broblem leol.
- Mae **lleoliadau sy'n hygyrch** i bobl hŷn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall pob dinesydd gymryd rhan yn llawn mewn gweithgarwch cymdeithasol a chymunedol, a all gael effaith gadarnhaol ar eu lles.
- Mae **cyfleusterau hamdden** i bobl hŷn yn galluogi pobl i barhau i fod yn egnïol, a chymryd rhan yn eu cymuned leol. Gallant hefyd fod o fudd i'w hiechyd a'u lles. Gall gweithgareddau yn y gymuned helpu i bobl ddysgu sgiliau newydd, parhau i fod yn weithgar, cwrdd â phobl, gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned a chael hwyl.
- Mae **canolfannau dydd, clybiau a gweithgareddau** yn lleoedd lle gall pobl hŷn alw heibio i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau mewn amgylchedd cefnogol. Mae rhai ohonynt yn cynnig cymorth i bobl gydag anghenion gofal cymdeithasol, a llawer yn cynnig prydau neu glybiau cinio.
- Bydd **canolfannau byw'n annibynnol lleol** fel arfer yn cynnig gwasanaeth asesu a gwybodaeth diduedd a rhad ac am ddim i bobl hŷn sy'n chwilio am gyfarpar a chyngor i'w helpu i fyw'n annibynnol.



2.28 Dengys Arddangosyn 18 ostyngiad o 18 y cant mewn gwariant ar gyfleusterau cymunedol, o £48.9 miliwn yn 2013-14 i £40 miliwn yn 2014-15. Torrwyd cyllidebau pob un o'r pum maes a adolygwyd gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r mwyaf o'r rhain oedd toiledau cyhoeddus lle gwelwyd gostyngiad o 26.8 y cant, a llyfrgelloedd wedi hynny, lle cafwyd gostyngiad o 18.7 y cant mewn gwariant. Wrth gyflawni ein gwaith maes, canfuom hefyd fod saith o gynghorau'n cynllunio toriadau i gyllidebau neuaddau cymuned yn y dyfodol, pedwar o gynghorau'n bwriadu lleihau gwariant ar doiledau cyhoeddus, tri'n bwriadu lleihau gwariant ar gyfleusterau hygyrch, dau'n bwriadu lleihau gwariant ar lyfrgelloedd, ac un yn bwriadu lleihau gwariant ar ganolfannau byw'n annibynnol. Fodd bynnag, ar ôl cwblhau ein gwaith maes, roedd y rhan fwyaf o'r cynghorau'n dal heb gytuno ar eu hopsiynau ar gyfer y gyllideb yn 2015-16, ac mewn sawl maes a adolygwyd gennym, nid oedd cynghorau'n gallu darparu gwybodaeth am y niferoedd a ddefnyddiai'r gwasanaethau hyn.

### Arddangosyn 18 – Gwariant ar gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn 2013-14 ac yn 2014-15, a'r defnydd o'r gwasanaethau hyn yn 2014-15

Cafwyd gostyngiad o £8.8 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yng ngwariant cynghorau ar gyfleusterau cymunedol.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau, ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data, Ebrill 2015

2.29 Mewn sawl cyngor, mae cyfleusterau cymunedol wedi cael eu trosglwyddo i ddarparwyr eraill, neu mae'r cyfleusterau hyn yn cael eu defnyddio i ddibenion eraill. Canfuom fod cynghorau ar hyn o bryd yn rheoli a chynnal 450 o doiledau cyhoeddus ledled Cymru, ond eu bod hefyd wedi newid y trefniadau rheoli a chyflenwi ar gyfer 48 o gyfleusterau eraill, yn bennaf drwy drosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol. Canfuom nad yw saith cyngor yn rheoli neuaddau cymuned yn uniongyrchol mwyaf, ac nad yw pedwar cyngor mwyach yn darparu llyfrgelloedd yn uniongyrchol. Mae'n bosibl na fydd newid y rheolaeth ar asedau'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar wasanaethau. Gall hefyd achosi cynnydd neu ostyngiad yn y ddarpariaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, oherwydd y bylchau mewn data ar ddefnydd a nodwyd yn flaenorol, mae'n anodd barnu beth fu'r effaith.

2.30 Dengys Arddangosyn 19 fod cyfleusterau cymunedol yn cael eu hystyried yn bwysig gan bobl hŷn er mwyn helpu i gadw eu hannibyniaeth. Roedd lefel eu pwysigrwydd yn amrywio, rhwng canolfannau byw'n annibynnol lleol lle'r oedd 58 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y canolfannau hynny'n bwysig, a'r holl gyfleusterau cymunedol a sgoriodd yn uwch na 50 y cant o ran eu pwysigrwydd i bobl hŷn. Er bod y gwasanaethau hyn yn cael eu hystyried yn bwysig iawn gan bobl hŷn, mae cyllid y rhan fwyaf ohonynt wedi'i gwtogi.

Arddangosyn 19 – Cymharu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol sydd yn fwyaf pwysig yn ôl pobl hŷn i'w galluogi i fyw'n annibynnol, ochr yn ochr â newidiadau i gyllidebau'r cyngor ar gyfer y gwasanaethau hyn

Mae pobl hŷn yn cydnabod rôl bwysig yr holl gyfleusterau cymunedol i'w helpu i fyw'n annibynnol, ac mae cyllidebau pump o'r saith o wasanaethau hyn wedi wynebu toriadau, a chyllideb y ddau wasanaeth arall heb newid.





Ffynhonnell: Arolwg dinasyddion Swyddfa Archwilio Cymru, Ebrill 2015, a dadansoddiad o wybodaeth am gyllidebau a ddarparwyd gan gynghorau ac a gasglwyd drwy ein hofferyn data, Ebrill 2015

2.31 I grynhoi, dengys Arddangosyn 20 fod cyllid wedi gostwng ar gyfer 20 o'r 33 o wahanol raglenni ataliol yr ydym wedi'u dadansoddi'n fanwl, ac yr ydym wedi holi pobl hŷn ynghylch eu pwysigrwydd cymharol er mwyn cadw annibyniaeth. Mae saith o'r 10 o wasanaethau a ddyfarnwyd yn fwyaf pwysig gan bobl hŷn, a phedwar o'r pum gwasanaeth gorau sy'n eu helpu pobl i fyw'n annibynnol wedi cael eu cwtogi - neuaddau cymuned (41 y cant), toiledau cyhoeddus (26.8 y cant), llyfrgelloedd (18.7 y cant) a chludiant cyhoeddus (5.7 y cant). Mae cynghorau'n wynebu'r her sylweddol o orfod lleihau gwariant er mwyn cydbwyso cyllidebau.

## Arddangosyn 20 – Cymharu gostyngiadau yng nghyllidebau gwasanaethau ataliol a threfn y gwasanaethau hyn o ran pa mor bwysig y'u hystyrir gan bobl hŷn er mwyn cadw annibyniaeth

Mae pobl hŷn yn cydnabod rôl bwysig cyfleusterau cymunedol i'w helpu i fyw'n annibynnol, ond mae toriadau wedi cael eu cyflwyno i gyllidebau dros hanner y rhain.




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, arolwg ar-lein i ddinasyddion ac offeryn data, Ebrill 2015

2.32 Er ein bod yn cydnabod yr her a wynebir gan gynghorau o ran lleihau gwariant i gydbwyso cyllidebau, bydd y toriadau hyn yn cael effaith andwyol ar bobl hŷn. Mae'n bosibl hefyd na cheir arbedion i drethdalwyr wedi'r cyfan oherwydd bydd toriadau i wasanaethau ataliol yn aml yn arwain at wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mwy acìwt fydd yn ddrytach yn y tymor canolig. Serch hynny, mae'n anodd mesur effaith y toriadau cyllideb hyn mewn gwasanaethau ataliol lefel isel, a hynny oherwydd cyfyngiadau ar ansawdd a manylder data ar gyllidebau a pherfformiad a gesglir ac a adroddir ar draws y sbectrwm o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

2.33 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg hefyd yn pryderu y byddai cau a chyfyngu ar argaeledd cyfleusterau cymunedol yn amharu ar eu hannibyniaeth i raddau sylweddol.




Sylwadau gan bobl hŷn ynghylch effaith cau cyfleusterau cymunedol
Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, arolwg ar-lein i ddinasyddion, Ebrill 2015

## Bu’r Gronfa Gofal Canolraddol yn werthfawr er mwyn cefnogi gwasanaethau sy’n galluogi pobl hŷn i fyw’n annibynnol, ond oherwydd natur fyrdymor y cyllid, a rhai cyfyngiadau ar werthusiadau a gwaith partneriaeth, mae’n anodd canfod a yw’r trawsnewid a ddymunir wrth gyflenwi yn cael ei gyflawni

2.34 Cafodd y Gronfa Gofal Canolraddol ei chreu gan Lywodraeth Cymru yn 2014-15 i annog awdurdodau lleol, sefydliadau iechyd a sefydliadau tai i weithio mewn modd integredig. Roedd y Gronfa’n cynnwys £35 miliwn o gyllid refeniw ac £15 miliwn o gyllid cyfalaf i helpu pobl hŷn, yn enwedig henoed bregus, i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartref eu hunain. Roedd hwyrni’r penderfyniad i greu’r ffrwd ariannu hon ym mis Rhagfyr 2013, a’r prinder amser ar gyfer sefydlu a dosbarthu’r cyllid erbyn mis Mawrth 2014, yn her i Lywodraeth Cymru ac i’w bartneriaid.

2.35 Mae’r cyllid wedi’i ddyrannu i ardaloedd ôl troed rhanbarthol Caerdydd a’r Fro, Cwm Taf, Y Canolbarth a’r Gorllewin, Gogledd Cymru, Bae’r Gorllewin a Gwent. Fodd bynnag, ni thelir arian yn uniongyrchol o’r Gronfa i gyrff iechyd ar gyfer gwasanaethau, ac mae canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru’n pwysleisio bod angen ‘gwthio adnoddau allan’ i gefnogi integreiddio/cydweithio rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector a’r sector annibynnol, a helpu pobl hŷn i aros gartref neu yn y gymuned. Mae’r Gronfa wedi galluogi cyflawni peth gwaith arloesol, ac wedi galluogi partneriaid i brofi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau. Gellir hefyd ei ddefnyddio fel cyllid sefydlu er mwyn helpu i drawsnewid y dull o ddarparu gwasanaethau. Fel enghraifft o arfer da, cyfeirir at y gwaith canlynol ym Mro Morgannwg, yr adroddwyd amdano gan Gynghrair Henoed Cymru.

**Bro Morgannwg - Gwasanaeth Brocer y Sector Gwirfoddol**

Cynhaliwyd prosiect peilot chwe mis er mwyn sefydlu rôl brocer trydydd sector yng nghanolfan gyswllt cyngor Bro Morgannwg. Ariannodd y Gronfa Gofal Canolraddol swydd lawn amser i sicrhau mwy o integreiddio mewn gwaith rhwng awdurdodau lleol, iechyd, tai a’r trydydd sector. Bu’r deilydd swydd yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro i sicrhau bod ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o’r sector gwirfoddol yn cael eu dwyn ynghyd mewn ymateb i’r anghenion a nodwyd ar gyfer pobl sy’n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn bregus. Yn ystod y pedwar mis cyntaf ers creu’r gwasanaeth, cododd y brocer ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau trydydd sector a chael 81 o atgyfeiriadau, a derbyniodd 45 y cant o’r rheiny gymorth o’r trydydd sector.

2.36 Nid oedd y Gronfa ond i fod ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn ei gyllid hyd 2015-16 drwy ddarparu £20 miliwn arall (£17.5 miliwn ar gyfer prosiectau presennol a £2.5 miliwn i ehangu 'hanesion llwyddiannus' ar draws Cymru). Er bod y cyllid hwn wedi'i ymestyn, bydd angen i bartneriaid sicrhau ffynonellau cyllid eraill neu brif-ffrydio'r cyllidebau hyn er mwyn cynnal gwasanaethau.

2.37 Drwy ein hadolygiad, canfuom rai gwendidau wrth sefydlu'r cynllun sy'n ei gwneud hi'n anodd barnu a yw'r Gronfa'n cefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau, yn ôl y bwriad:

a Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod partneriaid sy'n derbyn cyllid yn cyflwyno adroddiadau monitro chwarterol i farnu ynghylch llwyddiant prosiectau cyllido a'u heffaith. Gadawodd Llywodraeth Cymru i bartneriaid gytuno ar ffurf a chwmpas adroddiadau monitro, yn rhannol er mwyn cydnabod ffocws unigryw pob prosiect, ond hefyd er mwyn annog sylfaen dystiolaeth mor eang ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, gall hyn ei gwneud hi'n anodd i Lywodraeth Cymru gymharu prosiectau'r naill a'r llall a nodi pa gynlluniau sy'n creu'r canlyniadau gorau. Heb unrhyw linell sylfaen ar ddechrau prosiectau ychwaith, bydd partneriaid yn ei chael hi'n anodd dangos effaith eu gwaith a gwelliant dros amser.

b Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn bod partneriaid yn cyflwyno adroddiad gwerthuso diwedd prosiect. Wrth gyflawni ein gwaith maes nid oedd unrhyw adroddiad gwerthuso wedi'i dderbyn ar gyfer 2014-15, a hynny er gwaethaf y ffaith bod cylch ariannu newydd wedi'i gytuno ar gyfer 2015-16. Rhoddwyd gwybod i ni fod adroddiadau wedi'u darparu'n ddiweddarach. Anogodd Llywodraeth Cymru bartneriaid i gytuno ar ffurf a chwmpas yr adroddiadau gwerthuso diwedd blwyddyn. Y rheswm rhannol am hyn oedd prinder amser wrth sefydlu a dosbarthu'r arian, a dymuniad ar ran Llywodraeth Cymru i leihau baich gweinyddol y Gronfa. Fodd bynnag, heb sefydlu'r gofynion ar gyfer adrodd data ymlaen llaw, cydnabyddir ei bod hi'n anodd cynnal dadansoddiad a gwerthusiad cymharus er mwyn canfod dulliau arloesol y gellid eu hehangu ar draws Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â hyn gyda'i bartneriaid, ee, drwy ddigwyddiadau dysgu ar y cyd.

c Oherwydd dull ac amseriad dosbarthu'r grant cychwynnol, cafwyd llai o fewnbwn gan y sector gwirfoddol mewn rhai meysydd. Mynegodd Cynghrair Henoed Cymru[18] a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru[19] bryder bod rhai sefydliadau o'r trydydd sector wedi'u heithrio i bob pwrpas gan bartneriaid statudol gan nad oedd y gronfa ond yn cael ei dyrannu i awdurdodau lleol. Gall y dull hwn amharu'n ddifrifol ar y gwaith o ddatblygu gwasanaethau ataliol cwbl integredig gan fod gwaith partneriaid y trydydd sector yn aml yn cefnogi'r trawsnewid sydd ei angen yn y maes gofal cymdeithasol, ac mae'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y mae angen i awdurdodau gadw mewn cof wrth gytuno ar brosiectau.

18 Cynghrair Henoed Cymru yw'r gynghrair o 19 o sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol sy'n ymrwymo i gydweithio er mwyn gwella bywydau pobl hŷn yng Nghymru.
19 Y corff cynrychioliadol sy'n ymgyrchu dros sefydliadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau yng Nghymru.

ch I gloi, ar adeg ein gwaith maes, yn gynnar yn 2015, nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cadarnhau faint o'r prosiectau y dyrannwyd arian gofal canolraddol iddynt yr oedd partneriaid bellach wedi'u prif ffrydio i gyllidebau craidd, ac a allai weithredu heb fod yn ddibynnol ar y Gronfa. Gan na ellir cwblhau gwerthusiad llawn o effaith y Gronfa nes bo'r cyllid wedi dod i ben, nid yw'n glir a yw prif nod y Gronfa - sef datblygu gwasanaethau integredig a modelau cyflenwi cynaliadwy sydd wedi'u prif ffrydio i gyllidebau - wedi'i gyflawni, ac a yw buddiannau cyllid sefydlu Llywodraeth Cymru wedi'u gwireddu ai peidio.

## Rhan 3

Oherwydd prinder data, ni all cynghorau ddangos effaith eu gwasanaethau o ran helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, ac mae hyn yn lleihau eu gallu i graffu a gwneud penderfyniadau wrth bennu blaenoriaethau yn y dyfodol



3.1 Yn rhan olaf yr adroddiad, asesir trefniadau cynghorau ar gyfer rheoli perfformiad wrth oruchwylio gwasanaethau i bobl hŷn. Mae ein hadolygiad yn edrych ar yr wybodaeth a ddefnyddir gan gynghorau i ffurfio barn ynghylch perfformiad, ac a adroddir wrth yr aelodau etholedig er mwyn craffu ar weithgarwch presennol a hefyd er mwyn gwneud dewisiadau wrth ddatblygu gwasanaethau. Rydym hefyd yn ystyried pa mor gadarn yw'r trefniadau ar gyfer gwneud dewisiadau'n unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

## Ar hyn o bryd, ni chesglir data allweddol i fesur sut mae gwasanaethau cyngor yn cefnogi annibyniaeth pobl hŷn, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd goruchwylio gwasanaethau i bobl hŷn, a gwneud penderfyniadau ynghylch hynny

3.2 Yn eu cynlluniau a'u strategaethau, mae'r cynghorau wedi dangos dealltwriaeth glir o'r materion y byddant yn eu wynebu yn y dyfodol wrth helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Mae'r materion hyn yn seiliedig ar boblogaeth sy'n heneiddio, y ffaith y bydd pobl yn byw'n hirach a chynnydd yn y cyflyrau a geir ymhlith pobl hŷn. Mae'r cyflyrau hyn yn cynnwys codymau a thorasgwrn; dementia a chyflyrau iechyd meddwl eraill; ac eiddilwch. Yn ychwanegol at y dangosyddion sy'n mesur amlygrwydd y rhain, a chyflyrau eraill, edrychodd cynghorau ar ddangosyddion ar gyfer gwasanaethau fel oedi wrth drosglwyddo gofal a chyfraddau'r bobl sy'n derbyn gofal yn y gymuned.

3.3 Mewn rhai achosion, mae cynghorau wedi nodi'n glir pa wasanaethau, nad ydynt yn wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, y byddant yn eu darparu i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu hardal. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion a ddefnyddir i fesur effaith blaenoriaethau o ran helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol - 'faint o wahaniaeth y mae ein cynlluniau a'n strategaethau'n ei gwneud?' - yn hollol wahanol i'r dangosyddion a ddefnyddir i nodi a sefydlu blaenoriaethau yn y lle cyntaf - 'beth yw'r problemau yr ydym am fynd i'r afael â hwy?'

3.4 Gan ei bod hi'n anodd ynysu a mesur effaith bosibl gwahanol wasanaethau o ran helpu pobl hŷn i aros gartref a byw'n annibynnol (er bod dadansoddi cyfraniad yn ddull[20] a ddefnyddir yn gynyddol gan rai cynghorau), mae angen i gynghorau ddatblygu data allbwn er mwyn ffurfio barn well ynghylch effaith eu gwaith. Gellir datblygu'r data hwn ar lefel gwasanaeth i adlewyrchu'r modd y mae llawer o bobl hŷn yn defnyddio gwasanaeth, a sut y mae'n effeithio ar eu bywydau. Byddai'n anodd mesur sut mae pob gwasanaeth unigol yn cyfrannu at eu hannibyniaeth.

20 Dull o asesu perfformiad polisïau a rhaglenni wrth geisio sicrhau canlyniad neu ganlyniadau yw dadansoddiad cyfraniad. Mae dadansoddiad o gyfraniad yn canolbwyntio ar gwestiynau ynghylch 'cyfraniad', yn benodol, i ba raddau y mae'r canlyniadau a welwyd (boed y rheiny'n gadarnhaol neu'n negyddol) yn deillio o'r polisi, y rhaglen neu weithgarwch y gwasanaeth. Yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, byddai hyn yn cael ei ddefnyddio i asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran sicrhau'r canlyniad o helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol.

3.5 Canfuom fod data cyfredol yn canolbwyntio gormod ar fesur perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad statudol, er bod peth data hefyd i'w cael yn gysylltiedig â'r galw am wasanaethau a'r amserau ymateb. Bydd llawer o'r wybodaeth hon hefyd yn destun adroddiadau a gwaith craffu oddi mewn i wasanaethau penodol, ac ni fydd felly'n rhoi trosolwg cyfannol o'r oll wasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn. At hynny, cyfeirio at ddata iechyd a gofal cymdeithasol y mae'r rhain a dangosyddion eraill a ddefnyddir mewn cynlluniau a strategaethau, yn hytrach nag at wasanaethau eraill sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Mae'r diffyg hwn mewn data ar wasanaethau mewn cynghorau nad ydynt yn wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ddangos effaith bosibl y gwasanaethau hyn.

3.6 Nodwyd yn Rhan 1 fod hyd at bump o strategaethau a chynlluniau ar waith sy'n trafod gwasanaethau i bobl hŷn mewn rhai cynghorau. Fodd bynnag, bydd y rhain yn aml yn cael eu cyflawni'n annibynnol ar y naill a'r llall, bydd eu cwmpas yn wahanol, a bydd yr wybodaeth am berfformiad hefyd yn destun craffu ar wahanol lefelau a chan wahanol bobl. Mae hyn yn golygu bod gwaith craffu'n hynod anodd, ac yn gwanio'r trosolwg strategol sydd eu hangen ar yr ystod eang o wasanaethau sy'n effeithio ar bobl hŷn.

3.7 Dywedodd cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn a ymatebodd i'n harolwg fod angen gwella'r modd y mae cynghorau'n dadansoddi a deall rôl gwahanol wasanaethau er mwyn helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Roedd nifer yn cydnabod ei bod hi'n anodd canfod beth oedd effaith llawer o wasanaethau o ran helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, a hynny oherwydd gwendidau mewn data a'r arfer parhaus o adrodd ar berfformiad yn ôl adrannau yn hytrach nag yn ôl llinellau canlyniad.

3.8 Er enghraifft, drwy ei gynllun Powys yn Un[21], mae Cyngor Sir Powys wedi cynnwys 'bydd pobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw bywydau llawn yn eu cymunedau'. O dan y flaenoriaeth hon, mae cyfres o ddulliau wedi'u cytuno i fesur llwyddiant, ond mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, heb gipio unrhyw fesurau i farnu gwaith gwasanaethau eraill. Er enghraifft, o'r wyth o fesurau a nodir yn y cynllun, mae a wnelo pedwar ohonynt â gwaith gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac mae a wnelo pedwar ohonynt ag iechyd. Nid oes gwybodaeth wedi'i chynnwys am wasanaethau cyngor eraill sy'n cyfrannu at y nod strategol hwn, er bod y cynllun yn cydnabod effaith gwasanaethau eraill, fel trafnidiaeth, ar annibyniaeth Yn wir, mae llawer o'r gwasanaethau yr ydym wedi'u dadansoddi uchod heb eu cynnwys yn y fframwaith mesur perfformiad o gwbl.

3.9 Mae cyfyngiadau ar wybodaeth a data perfformiad yn arbennig o broblematig wrth i gynghorau benderfynu cyflwyno toriadau neu dynnu buddsoddiadau'n ôl o wasanaethau ataliol anstatudol fel ffordd o ddiogelu gwariant ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill statudol. Mae'r pwyslais hwn ar y tymor byr - er mwyn cydbwyso cyllidebau - yn lleihau gallu'r cyngor i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, ac i sicrhau mwy o arbedion mewn cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil hynny.

21 **Cynllun Powys yn Un 2014-2017,** tudalen 11

## Ceir llawer o gynghorau nad ydynt yn cofnodi data ar y defnydd o lawer o wasanaethau a ddarperir i bobl hŷn y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

3.10 Gall cynghorau gael dealltwriaeth dda o'u preswylwyr a'u cymunedau drwy ddatgloi'r cyfoeth o wybodaeth swyddogol a phersonol sydd yn eu meddiant, a thrwy gydweithio â deiliaid data eraill fel cynghorau cyfagos, yr heddlu, cymdeithasau tai a phartneriaid eraill. Bydd casglu, cyfuno a dadansoddi'r wybodaeth hon mewn modd deallus yn arwain at weithgareddau cymorth ac ymyrraeth sydd wedi'u targedu'n well. Yn ogystal â hyn, drwy astudio, dadansoddi a rhagweld demograffeg ardal, mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa llawer gwell i gynnig y gweithgarwch cefnogi ac ymyrraeth mwyaf priodol. Er enghraifft, mewn ardal a chanddi oedran cyfartalog o 60, gallai buddsoddi mewn cymorth symudedd fod yn llawer mwy addas na buddsoddi mewn llecynnau chwarae.

3.11 Er mwyn torri gwariant yn effeithiol, mae angen i gynghorau wneud defnydd effeithiol o ddata i gynorthwyo'r rhai sy'n penderfynu i wneud dewisiadau ynghylch polisi a gweithredu sy'n ddeallus ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn gynyddol felly, mae angen tystiolaeth sy'n dangos y berthynas rhwng mewnbwn (faint o arian sy'n cael ei wario), allbwn (y gwasanaethau a ddarperir yn ogystal â'r nifer sy'n eu defnyddio) a chanlyniadau (effaith lesol y gwasanaeth). Fodd bynnag, dengys ein gwaith dadansoddi nad yw llawer o gynghorau'n cofnodi data allweddol ar hyn o bryd - er enghraifft, y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau - a bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd dadansoddi data, ac yn cyfyngu'n aruthrol ar waith dadansoddi uwch[22].


3.12 Mae Arddangosyn 21 yn crynhoi ein dadansoddiad o'r data a ddychwelwyd gan 21 o'r 22 o gynghorau a ymatebodd i'n cais am wybodaeth. Canfuom fod nifer fach o gynghorau'n coladu ac yn adrodd ar ystod dda o ddata'n gysylltiedig â'r gwasanaethau yr ydym wedi'u hadolygu, fel Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

3.13 Fodd bynnag, roedd llawer o gynghorau eraill nad oeddent yn gallu darparu niferoedd ar gyfer y defnydd o wasanaethau, ar gyfer nifer sylweddol o'r gwasanaethau ataliol y buom yn eu hadolygu, yn enwedig ar gyfer cyfleusterau cymunedol, lle na chofnododd unrhyw gyngor wybodaeth am y defnydd o doiledau cyhoeddus, a lle nad oedd ond pedwar wedi gwneud hynny ar gyfer neuaddau cymuned a chanolfannau byw'n annibynnol. Mae hyn yn golygu bod llawer o gynghorau heb fod yn gallu rheoli darpariaeth y gwasanaethau hyn a chynllunio darpariaeth i'r dyfodol mewn modd effeithiol. Nid yw'r diffyg hwn ychwaith yn helpu cynghorau i dargedu gweithgarwch ar adeg lle bo adnoddau'n prinhau. Ceir ein dadansoddiad manwl yn Atodiad 5, gan gynnwys gwybodaeth gan gynghorau am y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau unigol hyn.

22 Mae dadansoddeg uwch yn cyfeirio at ddadansoddiadau sy'n seiliedig ar y dyfodol y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i ysgogi newidiadau a gwelliannau i arferion busnes. Mae dadansoddeg uwch yn seiliedig ar egwyddorion mathemategol, ac fe'i dechreuir ar ffurf ystadegau disgrifiadol sy'n adio ac yn cyfrif digwyddiadau o'r gorffennol. Mae hyn yn ddefnyddiol er mwyn ymateb i gywiro cwrs. Mae dadansoddeg uwch yn eich galluogi i ragweld canlyniadau yn y dyfodol, a naill ai manteisio arnynt neu gyflwyno addasiadau ar y pryd i ddylanwadu ar y dyfodol.

Arddangosyn 21 – Nifer y cynghorau sy’n cadw data defnydd ar gyfer gwasanaethau y tu allan i’r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy’n helpu pobl i fyw’n annibynnol

Mae llawer o gynghorau heb fod yn cofnodi data allweddol sy’n hanfodol er mwyn cynllunio gwasanaethau i bobl hŷn yn y dyfodol, ac er mwyn penderfynu ymhle i dorri cyllidebau.




Ffynhonnell: Offeryn data Swyddfa Archwilio Cymru, Ebrill 2015

## Ceir perygl bod cynghorau'n newid gwasanaethau heb gynnal asesiad llawn o'r effaith bosibl ar bobl hŷn, a bod hynny'n tanseilio'u gallu i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn llawn

3.14 Nodai'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) newid mawr i'r gyfraith ar gydraddoldeb oedd mewn grym ym Mhrydain Fawr. Mae'n nodi dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas ag oedran, ailbennu rhywedd, rhyw, hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedlaetholdeb), anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred (gan gynnwys anghrediniaeth). O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i gyrff rhestredig roi sylw priodol i'r angen i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddwch ac erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir yn sgil y ddeddf; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl heb y nodwedd honno; a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl heb y nodwedd honno; Mae awdurdodau cyhoeddus wedi'u rhestru yn Atodlen 19 y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn cynnwys awdurdodau lleol.


3.15 Mae'n rhaid i gorff cyhoeddus rhestredig yng Nghymru asesu effaith debygol polisïau ac arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol ac asesu effaith unrhyw bolisi sy'n cael ei ddiwygio, ac unrhyw ddiwygiad arfaethedig. Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau ar yr asesiadau os ydynt yn dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar allu awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a monitro effaith polisïau ac arferion ar ei allu i gyflawni'r ddyletswydd honno. Yn arbennig, dylid cynnal asesiad bob tro o effaith polisïau perthnasol iawn, megis penderfyniadau strategol ynghylch y gyllideb, rhaglenni creu grantiau a newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth (gan gynnwys diddymu neu ad-drefnu gwasanaethau) a grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

3.16 Wrth asesu effaith polisïau ac arferion ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, mae'n rhaid i awdurdod gydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu a rhoi sylw priodol i'r wybodaeth berthnasol sydd ym meddiant yr awdurdod. Mewn adroddiadau ar asesiadau, mae'n rhaid nodi'n arbennig bwrpas y polisi neu'r arfer (neu'r diwygiad) a aseswyd; crynodeb o'r camau y mae'r awdurdod wedi cymryd i gynnal yr asesiad (gan gynnwys ymgysylltu perthnasol); crynodeb o'r wybodaeth y mae'r awdurdod wedi'i hystyried yn yr asesiad; canlyniadau'r asesiad; ac unrhyw benderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â'r canlyniadau hynny.

3.17 Er bod 97 y cant o ddinasyddion hŷn gweithgar yn gwybod bod yn rhaid i'w cyngor greu arbedion a chwtogi gwasanaethau, canfuom mai ond 46 y cant a wyddai beth fyddai'n cael ei gwtogi, a dim ond 29 y cant oedd wedi cael gwybod sut y byddai hynny'n effeithio arnynt hwy.[23] Mae hyn yn amlygu'r ffaith nad yw cynghorau'n cyfathrebu â dinasyddion gweithgar ynghylch eu cynlluniau i newid cyllidebau. Mae gan y dinasyddion hynny fel arfer ddealltwriaeth well o waith llywodraeth leol, ac maen nhw'n debygol o fod yn fwy ymwybodol o brosesau'r cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn destun pryder neilltuol gan fod yr un grŵp o ddinasyddion gweithgar yn adrodd toriadau sylweddol mewn llawer o wasanaethau cyngor ataliol, ac mae Arddangosyn 22 yn dangos bod y newidiadau hyn yn amrywio rhwng 27 y cant o ddinasyddion yn nodi gostyngiad i wasanaethau cyngor a gwybodaeth a 62 y cant yn nodi gostyngiad yn argaeledd toiledau cyhoeddus.

### Arddangosyn 22 – Adborth dinasyddion gweithgar ynghylch pa wasanaethau i bobl hŷn y mae eu cyngor wedi'u cwtogi

Yn ôl dinasyddion gweithgar, mae llawer o wasanaethau pwysig sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol wedi'u cwtogi.




Ffynhonnell: Arolwg dros y ffôn Swyddfa Archwilio Cymru o ddinasyddion gweithgar, Mawrth 2015

23 Defnyddir y term 'dinasyddion gweithgar' i ddisgrifio preswylwyr lleol sy'n cymryd rhan yn ffurifol mewn panel dinasyddion neu grŵp ymgynghori wedi'i sefydlu a'i gydgysylltu gan eu cyngor er mwyn canfod barn y cyhoedd wrth ddiwygio polisïau neu gyflwyno gwasanaethau newydd, er enghraifft.

3.18 Rydym hefyd wedi nodi nifer o wendidau mewn asesiadau effaith cydraddoldeb[24] a gynhaliwyd gan gynghorau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u cyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

a Dim manylion yn yr asesiadau effaith cydraddoldeb i gyd-fynd â chynlluniau cynghorau i godi treth y cyngor i ddangos sut y bydd newidiadau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig.

b Cyflwyno newid mawr i sianelau gwasanaethau cyngor a gwybodaeth, gan symud oddi wrth ymweliadau cartref a gwasanaethau swyddfa tuag at ddarpariaeth ar-lein a digidol. Ceir llai o ddefnydd o'r sianelau hyn ymhlith pobl hŷn, a byddent felly'n cael effaith negyddol ar y bobl hynny. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau effaith cydraddoldeb cyfatebol yn mesur yr effaith bosibl na'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl.

c Cynyddu ffioedd am wasanaethau heb nodi'r niferoedd y gallai hynny effeithio arnynt na chanfod beth fyddai'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig, hyd yn oed pan fo cynigion i gynyddu taliadau'n gysylltiedig â gwasanaethau y byddai pobl hŷn yn gwneud defnydd helaeth ohonynt - ee, cyflwyno taliadau cerdyn debyd i rai sy'n talu o bell yn lle wyneb yn wyneb.

ch Defnyddio ffurflenni asesu effaith cydraddoldeb safonol nad ydynt yn ddigon manwl ac nad ydynt yn rhoi unrhyw sicrwydd bod yr asesiad a gynhaliwyd wedi'i gwblhau'n drwyadl a bod modd cyfiawnhau'r casgliadau y daethpwyd iddynt.

d Gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd yn rhan o'r broses o bennu cyllidebau heb gynnwys digon o wybodaeth er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y byddai newidiadau'n effeithio arnynt hwy.

3.19 Rydym wedi nodi uchod fod cynghorau'n parhau i gael anhawster wrth gasglu data ar effaith bosibl newidiadau cynlluniedig i gefnogi penderfyniadau a wneir. Nid yw ansawdd y data sydd ar gael yn ddigon cadarn bob tro i ddangos yr effeithiau posib. Mae hyn felly'n ei gwneud hi'n anodd, os nad yn amhosibl, cynnal asesiad effaith cydraddoldeb cynhwysfawr a nodi'n glir beth fydd effaith penderfyniadau ar bobl hŷn.

24 Offeryn hunanasesu yw asesiadau effaith cydraddoldeb. Maent yn helpu cynghorau i edrych ar effaith gadarnhaol a negyddol debygol eu gwaith ar staff, aelodau, cwsmeriaid, partneriaethau, unigolion a chymunedau, o ran cyfle cyfartal a hyrwyddo amrywiaeth mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau, a chymryd camau priodol. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyngor roi sylw dyladwy i effaith eu polisïau a'u penderfyniadau ar bobl â nodweddion gwarchoedig, gan gynnwys oedran.




Sylwadau gan bobl hŷn ynghylch penderfyniad eu cyngor i gwtogi gwasanaethau
Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, arolwg ar-lein i ddinasyddion, Ebrill 2015

# Atodiadau

Atodiad 1 - Strategaethau a rhaglenni gwaith allweddol sy'n hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn yng Nghymru

Atodiad 2 - Methodoleg yr astudiaeth

Atodiad 3 - Rhestr wirio o nodweddion allweddol er mwyn datblygu ffocws strategol ar wasanaethau i bobl hŷn

Atodiad 4 - Canfyddiadau'r arolwg pobl hŷn ynghylch pa wasanaethau sydd yn fwyaf pwysig i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol

Atodiad 5 - Data ar y defnydd o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn 2014-15



# Atodiad 1 - Strategaethau a rhaglenni gwaith allweddol sy'n hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn yng Nghymru

## Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

Lansiwyd y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ei lansio gan Lywodraeth Cymru yn 2003. Mae'r strategaeth pobl hŷn bellach ar ei thrydydd cam[25] ac yn disgrifio uchelgais Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'n lle gwych i dyfu'n hŷn, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, beth bynnag fo'u hoedran, a lle mae ganddynt yr adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol angenrheidiol i fanteisio ar y cyfleoedd a wynebu'r heriau o'r blaen. Yn arbennig, mae Dirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi yn ei chyflwyniad i'r strategaeth mai 'nod y cam hwn o'r Strategaeth yw gwella ansawdd bywyd pobl hŷn mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i'r agenda iechyd a gofal cymdeithasol draddodiadol.'

Nod y strategaeth yw goresgyn y rhwystrau y mae pobl hŷn yng Nghymru'n eu hwynebu heddiw a sicrhau bod lles o fewn cyrraedd pawb. Caiff hyn ei gyfleu'n fras mewn tri phrif ddatganiad y mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ymdrin â hwy, sef bod pobl hŷn eisiau:

- cael ymdeimlad o bwrpas a pherthynas dda ag eraill;
- byw mewn cymuned sy'n sensitif i'w hanghenion; a
- gallu fforddio bywyd o ansawdd da.

Mae'r strategaeth yn pennu tri phrif faes â blaenoriaeth i'w gweithredu gan wasanaethau cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag adnoddau cymdeithasol, adnoddau amgylcheddol ac adnoddau ariannol. O dan bob un o'r tri maes â blaenoriaeth, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi pennu 12 o ganlyniadau y mae am eu cyflawni ar gyfer pobl hŷn, ac wedi cytuno ar nifer o ddangosyddion llwyddiant lefel uchel i farnu ynghylch cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn dros oes y strategaeth. Mae'r 12 o ganlyniadau, a nodir yn llawn isod, yn canolbwyntio ar lawer o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth, fel cael gafael ar wybodaeth a chyngor o ansawdd uchel, gwasanaethau yn y gymuned, trafnidiaeth a thai. Mae'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn felly'n cydnabod rôl bwysig gwasanaethau ataliol lefel isel er mwyn cadw annibyniaeth a hefyd er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell i bobl hŷn.

25 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn** yn wreiddiol yn 2003. Roedd cam un y strategaeth yn trafod y cyfnod 2003-2008; cam dau'n trafod 2008-2013; a cham tri'n trafod y cyfnod 2013-2023.

| Meysydd â blaenoriaeth | Y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru am eu sicrhau i bobl hŷn erbyn 2023 |
|---|---|
| Adnoddau cymdeithasol | • **Cyfranogiad cymdeithasol** – mae pobl hŷn yn cael gwell ansawdd bywyd, yn byw bywydau cymdeithasol llawn (os dymunir hynny) ac mae unigedd ac ynysu cymdeithasol diangen yn cael eu lleihau i'r eithaf. Ni chaiff pobl hŷn eu cam-drin.<br>• **Amrywiaeth** – ni wahaniaethir yn erbyn pobl hŷn oherwydd eu hoedran, ac nid ydynt yn profi gwahaniaethu lluosog ar sail rhyw, ethnigrwydd, anabledd, crefydd a chred, na chyfeiriadedd rhywiol, yn ogystal ag oedran.<br>• **Cael gafael ar wybodaeth** – mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyngor ar wasanaethau a chyfleoedd, ac nid ydynt o dan anfantais wrth wneud hynny.<br>• **Dysgu a gweithgareddau** – mae pobl hŷn yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o ddysgu gydol oes a gweithgareddau cymdeithasol priodol eraill.<br>• **Heneiddio'n iach** – mae pobl hŷn yn mwynhau iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol da gyda'r nod o allu byw'n annibynnol yn hwy, gyda gwell ansawdd bywyd a pharhau i weithio a chymryd rhan yn eu cymunedau. |
| Adnoddau amgylcheddol | • **Mannau a rennir** – mae mannau cyhoeddus yn groesawgar, yn ddiogel ac yn hygyrch i bobl hŷn;<br>• **Byw yn y gymuned** – gall pobl hŷn gyfranogi a chyfrannu yn eu cymunedau a chael gafael ar wasanaethau ac amwynderau;<br>• **Trafnidiaeth** – gall pobl hŷn ddefnyddio trafnidiaeth fforddiadwy a phriodol sy'n eu helpu i chwarae rhan lawn mewn bywyd teuluol, cymdeithasol a chymunedol; a<br>• **Thai** – mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac yn hyrwyddo annibyniaeth. |
| Adnoddau ariannol | • **Pensiynau ac incwm arall** – mae gan bobl hŷn incwm o safon ddigonol ac maent yn cael yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael;<br>• **Ynni** – mae pobl hŷn yn byw mewn cartrefi sy'n effeithlon o ran ynni a gallant fforddio gwresogi eu cartrefi ar y tymheredd sydd ei angen i ddiogelu eu hiechyd;<br>• **Cynhwysiant ariannol** – gall pobl hŷn gael gafael ar gyngor a gwasanaethau ariannol priodol, ac nid ydynt yn mynd i ormod o ddyled; a<br>• **Chyflogaeth** – gall pobl hŷn sydd am weithio wneud hynny a gallant gael y cymorth i ddysgu sgiliau newydd ac ailhyfforddi. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023 - Byw'n hirach, heneiddio'n dda: Gwneud Cymru yn lle gwych i dyfu'n hen ynddo**, 2013

## Datganiad Dulyn

Yn 2007, lansiwyd dinasoedd oed-gyfeillgar[26] gan Sefydliad Iechyd y Byd, lle nodwyd wyth agwedd ar fywyd y ddinas a allai ddylanwadu ar iechyd a lles pobl hŷn. Bwriedir i gymunedau sy'n gyfeillgar i oed annog a galluogi pobl hŷn i ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch a pharhau i ymgysylltu'n gymdeithasol oddi mewn i'r cymunedau hynny, gan gynnal eu hiechyd, eu hannibyniaeth a'u lles drwy hynny.

Yn ymarferol, cymuned oed-gyfeillgar yw cymuned lle mae pobl leol wedi pennu blaenoriaethau fydd yn rhoi gwell cymorth i bobl wrth iddynt heneiddio. Gall hyn gynnwys dyluniad ffisegol, hyrwyddo mynediad a symudedd gwell, hyrwyddo'r trefniadau i bobl ymgysylltu â chymdeithas, a datblygu cymorth a pherthnasoedd rhwng gwahanol genedlaethau. Yr agwedd bwysicaf ar hyn yw sefydlu dull integredig o feddwl am y lleoedd y mae pobl yn byw ynddynt a'r ffyrdd gorau o hyrwyddo lles ac ymgysylltiad pobl hŷn â'u hamgylcheddau ffisegol a chymdeithasol.

Ailwampiwyd y cysyniad o ddinasoedd oed-gyfeillgar yn 2013, o dan Lywyddiaeth Iwerddon yn yr Undeb Ewropeaidd, pan lansiwyd Datganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar. Mae Datganiad Dulyn yn dangos adduned dinas neu gymuned i ddod yn 'oed-gyfeillgar' drwy ddefnyddio wyth o agweddau Sefydliad Iechyd y Byd fel fframwaith ar gyfer datblygu, ac yn ymrwymo dinas neu gymuned i addunedu y bydd yn datblygu i fod yn 'oed-gyfeillgar' yn seiliedig ar y fframwaith hwn. Mae'r datganiad yn cynnwys addewidion cychwynnol i;

- hyrwyddo Datganiad Dulyn;
- cydweithio â'r holl randdeiliaid lleol a rhanbarthol i gefnogi'r broses o weithredu'r addunedau'n llawn; a
- chyfathrebu drwy sianelau a rhwydweithiau lleol a rhanbarthol rhwng y dinasoedd a'r cymunedau amrywiol i ysgogi a chefnogi datblygiadau o ran hyrwyddo hawliau a chyfleoedd cyfartal i ddinasyddion hŷn, ac i rannu'r hyn a ddysgir ynghylch datblygiadau ym maes polisi ac arferion, sy'n gwella eu bywydau.

Anogwyd pob awdurdod lleol yng Nghymru i ymrwymo i Ddatganiad Dulyn a chefnogi arfer gorau ar gyfer pobl hŷn yn ffurfiol, er mwyn dangos eu bwriad i gydweithio â chymunedau lleol i ddatblygu a meithrin cymunedau oed-gyfeillgar. Yn dilyn hynny, ymrwymodd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i Ddatganiad Dulyn.

26 www.who.int/kobe_centre/ageing/age_friendly_cities/en/

## Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Lansiwyd Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru[27] (y Rhaglen) yn ffurfiol ym mis Hydref 2014, fel partneriaeth pum mlynedd ar gyfer llywodraeth leol a chenedlaethol ac asiantaethau pwysig o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n cynnal ac yn cadeirio'r Rhaglen. Nod cyffredinol y Rhaglen, sy'n adeiladu ar ymrwymiadau Datganiad Dulyn, yw sicrhau gwelliant i les pobl dros eu hanner cant.

Er bod y Rhaglen yn cydnabod y gall unigolion wneud llawer i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain, y mae hefyd yn cyfleu'n glir fod angen i sector cyhoeddus Cymru wneud llawer mwy i wneud Cymru'n lle da i bawb dyfu'n hen ynddo. Mae'r Rhaglen hefyd yn herio'r dybiaeth bod eiddilwch a dibyniaeth yn rhan anochel o heneiddio, tybiaeth sydd yn aml yn creu rhwystrau i bobl hŷn ac sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae pum prif amcan i'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Dyma'r amcanion hynny:

- Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed
- Atal Cwympiadau
- Cymorth dementia
- Dysgu a chyflogaeth
- Unigrwydd ac arwahanrwydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda chynghorau i gynhyrchu strategaethau pobl hŷn. Bydd y strategaethau hyn yn mynd i'r afael â'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn ogystal â gofynion Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn. Rhoddwyd hyblygrwydd i Gynghorau o ran strwythur a chynnwys strategaethau, ond bydd angen i'r strategaethau ddangos sut mae cynghorau'n bwriadu ymdrin â'r pum thema y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru a thri datganiad y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn.

27 **Heneiddio'n Dda yng Nghymru 2014-19: Sicrhau bod Cymru yn lle da i dyfu'n hŷn i bawb,** Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2014

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau ataliol wrth lunio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf). Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol a daeth yn gyfraith ar 1 Mai 2014. Mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn ceisio trawsnewid y dull o gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol, gan hyrwyddo annibyniaeth pobl er mwyn rhoi llais a rheolaeth gryfach iddynt. Drwy integreiddio a symleiddio'r gyfraith, bwriedir sicrhau gwell cysondeb a chreu mwy o eglurder i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol, eu gofalwyr, staff awdurdod lleol, partneriaid y trydydd sector a'r llysoedd a'r farnwriaeth.

Mae'r Ddeddf yn annog ataliaeth ac ymyrraeth gynnar yn benodol drwy greu llwybr newydd i ddinasyddion. Mae'r llwybr i ddinasyddion yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ac yn canolbwyntio ar y gwahanol lefelau a'r gwahanol fathau o wasanaeth sydd eu hangen ar bobl, gan gynnwys:

- Gwasanaethau cyffredinol y mae gan bawb hawl i'w derbyn, neu y mae pawb yn gymwys i'w derbyn, neu a ddarperir ar lefel sylfaenol i bob preswylydd. Cynigir y rhain weithiau'n rhad ac am ddim - presgripsiynau er enghraifft - neu gellir talu amdanynt, ond codir yr un tâl ar bawb waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol.
- Gwasanaethau cymunedol a lles Gwasanaethau cyngor yw'r rhain fel arfer sydd wedi'u cyflunio i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn. Maent yn trafod ystod o wasanaethau y tu allan i wasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwybodaeth a chyngor ynghylch holl adrannau'r cyngor, cymorth tai a seiliedig ar dai, a gwasanaethau sy'n cefnogi annibyniaeth neu'n atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty neu i ofal preswyl.
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol ac/neu iechyd, a ddarperir ar ôl cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion. Mae'r lefel a'r math o wasanaeth yn seiliedig ar amgylchiadau'r unigolyn, a phennir lefel y gwasanaeth drwy ddefnyddio meini prawf cymhwysedd a gytunwyd ar raddfa genedlaethol.

Drwy lwybr y dinesydd, disgwyliad Llywodraeth Cymru yw y bydd gwasanaethau cymunedol a lles yn chwarae rhan bwysig o ran atal mynediad i'r system gofal cymdeithasol, ac y bydd yn helpu pobl i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Bydd llwybr y dinesydd hefyd yn mapio'r gwasanaethau ataliol a dargedir, sydd fymryn yn is na'r trothwy cymhwysedd gofal cymdeithasol, ac a gyflenwir yn aml gan y trydydd sector. Bydd llwybr y dinesydd yn canolbwyntio ar wasanaethau ataliol sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, drwy ymdrin ag anghenion lefel isel i gymedrol a lleihau'r galw am wasanaethau iechyd ac/neu ofal cymdeithasol drytach.

# Atodiad 2 - Methodoleg yr astudiaeth

## Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn

Derbyniwyd cefnogaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer yr astudiaeth hon. Cymerodd y ddau sefydliad ran yng ngrŵp llywio'r prosiect fu'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chynnal yr astudiaeth, gan gyfrannu at:

- ddatblygu methodoleg yr astudiaeth;
- strwythur a chynnwys yr arolygon a ddefnyddiwyd gennym;
- dadansoddi data arolygon a gwybodaeth am berfformiad; a
- llunio casgliadau i drafodaethau a chytuno ar brif ganfyddiadau'r astudiaeth.

Yn ogystal â hyn, cynorthwyodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gwblhau'r gwaith maes ar-safle ar y chwe safle cyngor, a dosbarthodd swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru arolygon i fforymau pobl hŷn ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Drwy gydweithio ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, cawsom fanteisio ar eu harbenigedd a'u gwybodaeth leol wrth gyflawni'r astudiaeth hon. Dyma'r aelodau o staff fu'n ymwneud â'r gwaith hwn:

- Iwan Williams - Arweinydd Cymunedau, Llywodraeth Leol a Lles, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Chris Humphrey - Arolygydd Cenedlaethol a Chydgysylltydd Prosiect Astudio, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Bernard McDonald - Rheolwr Ardal, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Ken Redman - Rheolwr Ardal, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Sarah Glynn-Jones - Rheolwr Ardal, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Hugh Morgan - Rheolwr Ardal, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Denise Moultrie - Rheolwr Ardal, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru


## Adolygiad o lenyddiaeth, data ac ystadegau

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a deunydd cyfryngol, gan gynnwys:

- Polisi a dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru;
- cynlluniau a strategaethau awdurdod lleol ar gyfer pobl hŷn ym mhob un o'r 22 o gynghorau;
- canlyniadau dangosydd perfformiad cynghorau a ddychwelwyd i StatsCymru a'r Ganolfan Meincnodi;
- gwybodaeth a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru; ac
- ymchwil a chanllawiau perthnasol gan gynghorau, grwpiau o'r sector gwirfoddol a chyrff ymchwil.

## Offeryn data Swyddfa Archwilio Cymru – dadansoddiad o gyllidebau awdurdodau lleol a data ar y defnydd o wasanaethau

Cwblhawyd asesiad gennym o gyllidebau cynghorau ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn y tu allan i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan gynghorau. Cipiwyd hyn mewn offeryn data gan Swyddfa Archwilio Cymru. Darparwyd yr offeryn data i'w lenwi gan gynghorau, a gofynnai am wybodaeth am bedwar prif faes gwasanaeth sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, fel y nodir yn y tabl isod.

| Gwasanaethau cymorth ymarferol  | Gwasanaethau cyngor a gwybodaeth  | Tai a gwasanaethau seiliedig ar dai  | Cyfleusterau yn y gymuned  |
|---|---|---|---|
| • Garddio | • Hawliau lles | • Gofal Ychwanegol | • Toiledau cyhoeddus |
| • Glanhau cartrefi | • Eiriolaeth | • Gwarchod (dim warden) | • Llyfrgelloedd |
| • Cyfeillio | • Bwyta'n iach | • Gwarchod (gyda warden) | • Neuaddau cymuned |
| • Cludiant cymunedol | • Cadw'n gynnes | • Wedi'u dynodi i'r henoed | • Canolfannau dydd |
| • Cludiant cyhoeddus | • Galwyr ffug | • Technoleg gynorthwyol | • Canolfannau byw'n annibynnol |
| • Heneiddio'n egnïol | • Diogelwch yn y cartref | • Teleofal | |
| • Ymarfer corff ysgafn | • Croeso adref o'r ysbyty | • Wardeniaid Symudol | |
| • Gwirfoddoli | • Age Cymru | • Cymorth fel y bo'r angen | |
| • Dysgu i oedolion | | • Grantiau cyfleusterau i'r anabl | |
| • Y cartref | | • Gofal a thrwsio | |
| • Diogelwch eiddo a diogelwch personol | | • Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym | |
| | | • Tasgmon | |

Wrth gwblhau'r offeryn data, gofynnwyd i'r cynghorau ddarparu gwybodaeth yn erbyn pob un o'r pedwar maes dan sylw, gan gynnwys cyllidebau, nifer y bobl a ddefnyddiai'r gwasanaeth, prosesau mynediad ac ymgeisio, trefniadau atgyfeirio, codi tâl am wasanaethau, cyfyngiadau gweithredol o ran darpariaeth neu fynediad a newidiadau wedi'u cynllunio. Cafwyd ymateb gan 21 o gynghorau Cymru ar wahân i Gyngor Dinas Casnewydd, a ddewisodd i beidio cymryd rhan yn ein hastudiaeth. Roedd ansawdd ffurflenni'r cyngor hefyd yn amrywio, ac nid oedd rhai'n darparu gwybodaeth fanwl am gyllidebau, trefniadau mynediad na nifer y defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer y meysydd ataliol oedd yn destun adolygiad.

## Gwaith maes mewn awdurdodau lleol

Ymwelwyd â chwe awdurdod lleol yng Nghymru, rhwng mis Ionawr 2015 a mis Ebrill 2015. Mae'r cynghorau a ddewiswyd yn cynrychioli awdurdodau dinas, trefol a gwledig, ac awdurdodau o'r cymoedd, ym mhob rhan o Gymru. Dyma'r cynghorau hynny:

- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Yn ystod yr ymweliadau, buom yn cyfweld ag ystod o staff awdurdod lleol ac aelodau etholedig.

## Arolygon

Cynhaliom ystod o arolygon ar-lein, gan gynnwys y canlynol:

- Partneriaid y sector gwirfoddol sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn - cawsom 66 o ffurflenni wedi'u cwblhau.
- Aelodau etholedig ledled Cymru - cawsom 66 o ymatebion.
- Dinasyddion o fis Hydref 2014 hyd fis Mawrth 2015 - cawsom 545 o ymatebion.
- Cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn ym mhob awdurdod lleol - cawsom ymateb gan 19 o'r 22 o gynghorau. Ni ymatebodd cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot na Wrecsam i'r arolwg hwn.
- Yno ogystal â hyn, ym mis Rhagfyr 2014 a mis Ionawr 2015, cynhaliom arolwg dros y ffôn â 'dinasyddion gweithgar', a gytunodd i gymryd rhan yn ein harolwg. Dinasyddion gweithgar yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn ffurfiol ar banel dinasyddion neu mewn grŵp ymgynghori wedi'i sefydlu a'i gydgysylltu gan eu cyngor.

# Atodiad 3 - Rhestr wirio o nodweddion allweddol er mwyn datblygu ffocws strategol ar wasanaethau i bobl hŷn

| Safon sicrwydd corfforaethol | Ar waith | Yn cael ei datblygu | Heb fod ar waith |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth gorfforaethol** | | | |
| Mae'r cyngor wedi penodi unigolyn enwebedig ar lefel uwch reolwyr sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y cyngor yng nghyswllt gwasanaethau pobl hŷn. | | | |
| Mae'r cyngor wedi penodi eiriolwr gwasanaethau pobl hŷn o blith yr aelodau etholedig. | | | |
| Mae'r cyngor wedi alinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn i gefnogi datblygiad a chyflawniad cynlluniau ar gyfer holl wasanaethau'r cyngor sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn. | | | |
| Mae'r cyngor yn diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, ac yn rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a'r rhanddeiliaid. | | | |
| Mae'r cyngor yn profi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rolau arweinyddol corfforaethol hyn yn rheolaidd. | | | |
| **Strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer yr holl gyngor** | | | |
| Ceir strategaeth drwy'r holl gyngor er mwyn bodloni anghenion pobl hŷn, sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor. | | | |
| Mae gan y cyngor gynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion pobl hŷn, ac sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol (y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol). | | | |
| Mae'r cyngor wedi ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu'r strategaeth, y cynllun gweithredu ac wrth gytuno ar flaenoriaethau. | | | |
| Mae'r cynllun terfynol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r bobl hŷn y bu'r cyngor yn ymgynghori â hwy. | | | |


| Safon sicrwydd corfforaethol | Ar waith | Yn cael ei datblygu | Heb fod ar waith |
|---|---|---|---|
| Mae'r cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu, ac yn eu hyrwyddo a'u dosbarthu'n eang. | | | |
| Cynhelir adolygiad blynyddol o leiaf o gyrhaeddiad yn erbyn targedau'r cynllun gweithredu. | | | |
| Adolygir y strategaeth bob tair blynedd o leiaf. | | | |
| Caiff y strategaeth a'r cynllun gweithredu eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y corff rheoli perthnasol (ee, y cyngor neu'r weithrediaeth). | | | |
| Mae'r cyngor yn profi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu'n rheolaidd o fewn y cyngor a chyda rhanddeiliaid. | | | |
| **Craffu, sicrwydd a chreu effaith** | | | |
| Mae'r cyngor wedi pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys:<br>• Gwasanaethau cyngor a gwybodaeth<br>• Tai a gwasanaethau cymorth seiliedig ar dai<br>• Gwasanaethau ataliol<br>• Cyfleusterau yn y gymuned | | | |
| Mae'r mesurau perfformiad yn trafod gwaith yr holl wasanaethau cyngor, asiantaethau eraill perthnasol ac yn enwedig gwasanaethau y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | | | |
| Mae'r mesurau'n galluogi'r cyngor i farnu ynghylch:<br>• Mewnbwn (gwariant ar weithgarwch penodol i bobl hŷn)<br>• Allbwn (nifer y bobl hŷn sy'n defnyddio'r gwasanaethau)<br>• Canlyniad (effaith lesol y gwasanaeth) | | | |

| Safon sicrwydd corfforaethol | Ar waith | Yn cael ei datblygu | Heb fod ar waith |
|---|---|---|---|
| Mae'r cyngor yn adrodd yn rheolaidd wrth bwyllgor(au) craffu ar ei berfformiad o ran bodloni anghenion pobl hŷn yn holl wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys:<br>• Cyflawni yn erbyn targedau cynlluniau gweithredu<br>• Meincnodi a chymharu ag eraill<br>• Asesiadau effaith cydraddoldeb | | | |
| Mae trefniadau'r cyngor ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad yn dangos effaith gadarnhaol ei wasanaethau ar bobl hŷn. | | | |
| **Cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** | | | |
| Wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb, mae angen i gynghorau sicrhau eu bod yn: | | | |
| • nodi'n glir sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n amharu ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig; | | | |
| • mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gymerir i leihau'r effaith andwyol bosibl ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig; | | | |
| • nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau neu'r polisi newydd arfaethedig yn effeithio arnynt drwy ganfod beth fyddai'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a | | | |
| • sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth ddigonol fel bo modd i ddefnyddwyr gwasanaeth ddeall sut y bydd newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt hwy. | | | |

# Atodiad 4 - Canfyddiadau'r arolwg pobl hŷn ynghylch pa wasanaethau sydd yn fwyaf pwysig i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol

## Gwasanaethau cymorth ymarferol

| Maes | Ddim yn bwysig o gwbl | Dibwys | Ddim yn bwysig nac yn ddibwys | Pwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Cludiant cyhoeddus | 5% | 3% | 10% | 26% | 56% |
| Gosod dyfeisiau diogelwch eiddo a diogelwch personol | 9% | 5% | 12% | 31% | 44% |
| Cludiant cymunedol | 12% | 5% | 17% | 28% | 38% |
| Digwyddiadau heneiddio'n egnïol | 11% | 5% | 21% | 34% | 29% |
| Cymorth gyda mân dasgau yn y cartref | 13% | 7% | 22% | 31% | 27% |
| Cyfeirlyfrau a gwasanaethau garddio | 13% | 6% | 23% | 35% | 23% |
| Cynllun ymarfer corff ysgafn | 12% | 6% | 26% | 31% | 25% |
| Dosbarthiadau dysgu i oedolion | 9% | 5% | 32% | 31% | 23% |
| Glanhau, siopa a chymorth i olchi dillad | 15% | 7% | 25% | 32% | 21% |
| Cynllun gwirfoddoli | 11% | 5% | 32% | 35% | 17% |
| Cynlluniau ymweld a chyfeillio | 17% | 8% | 30% | 27% | 19% |



## Gwasanaethau cyngor a gwybodaeth

| Maes | Ddim yn bwysig o gwbl | Dibwys | Ddim yn bwysig nac yn ddibwys | Pwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwiriadau diogelwch yn y cartref (gyda gwasanaeth tân) | 8% | 4% | 13% | 35% | 40% |
| Ymgyrchoedd galwyr ffug | 10% | 6% | 15% | 34% | 35% |
| Cynlluniau croeso adref o'r ysbyty | 11% | 6% | 21% | 32% | 30% |
| Cyngor ar hawliau lles | 12% | 5% | 21% | 25% | 37% |
| Cyngor ynghylch cadw'n gynnes | 11% | 7% | 21% | 29% | 32% |
| Cyngor ac eiriolaeth annibynnol arbenigol | 13% | 6% | 22% | 32% | 27% |
| Cyngor ar fwyta'n iach | 12% | 10% | 27% | 32% | 19% |



## Tai a gwasanaethau cymorth seiliedig ar dai

| Maes | Ddim yn bwysig o gwbl | Dibwys | Ddim yn bwysig nac yn ddibwys | Pwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal a thrwsio | 13% | 4% | 12% | 25% | 46% |
| Grantiau cyfleusterau i'r anabl | 14% | 5% | 16% | 25% | 40% |
| Gwasanaeth tasgmon | 13% | 5% | 16% | 32% | 33% |
| Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym | 16% | 5% | 20% | 24% | 36% |
| Cymorth fel y bo'r angen i bobl hŷn | 16% | 7% | 19% | 26% | 33% |
| Tai wedi'u dynodi i'r henoed | 18% | 7% | 21% | 30% | 24% |
| Tai gwarchod gyda wardeiniaid ar y safle | 18% | 9% | 23% | 23% | 27% |
| Tai gwarchod heb wardeniaid | 18% | 9% | 24% | 32% | 17% |
| Technoleg gynorthwyol | 17% | 7% | 27% | 28% | 20% |
| Teleofal | 18% | 8% | 25% | 26% | 22% |
| Tai gofal ychwanegol | 19% | 9% | 26% | 26% | 21% |



## Cyfleusterau yn y gymuned

| Maes | Ddim yn bwysig o gwbl | Dibwys | Ddim yn bwysig nac yn ddibwys | Pwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Toiledau cyhoeddus | 2% | 3% | 8% | 30% | 56% |
| Llyfrgelloedd | 3% | 2% | 13% | 29% | 54% |
| Neuaddau cymuned | 4% | 3% | 14% | 33% | 46% |
| Lleoedd sy'n hygyrch i bobl hŷn | 8% | 3% | 12% | 33% | 45% |
| Cyfleusterau hamdden i bobl hŷn | 7% | 3% | 16% | 34% | 39% |
| Canolfannau dydd, clybiau a gweithgareddau | 8% | 4% | 16% | 28% | 43% |
| Canolfannau byw'n annibynnol lleol | 11% | 7% | 25% | 32% | 26% |




# Atodiad 5 - Data ar y defnydd o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn 2014-15

Gofynnwyd am wybodaeth gan gynghorau am nifer y bobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Isod, rhoddir crynodeb o nifer y cynghorau sy'n cofnodi'r data hynny ar y defnydd o wasanaethau, a'r niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau dan sylw ledled Cymru. Cymerwyd yr wybodaeth hon o'r 21 o ffurflenni data a dderbyniwyd gennym.

## Gwasanaethau cymorth ymarferol

| Maes | Nifer y cynghorau a adroddai'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau | Nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ledled Cymru |
|---|---|---|
| Garddio | 4 | 25,684 |
| Glanhau cartrefi | 5 | 558 |
| Cyfeillio | 7 | 1,120 |
| Cludiant cymunedol | 11 | 299,655 |
| Cludiant cyhoeddus | 12 | 18,950,224 |
| Heneiddio'n egnïol | 9 | 62,384 |
| Ymarfer corff ysgafn | 7 | 39,806 |
| Gwirfoddoli | 6 | 2,000 |
| Dysgu i oedolion | 12 | 72,294 |
| Y cartref | 6 | 11,394 |
| Diogelwch eiddo a diogelwch personol | 8 | 11,350 |



## Gwasanaethau cyngor a gwybodaeth

| Maes | Nifer y cynghorau a adroddai'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau | Nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ledled Cymru |
|---|---:|---:|
| Hawliau lles | 13 | 29,108 |
| Eiriolaeth | 8 | 21,194 |
| Bwyta'n iach | 5 | 2,769 |
| Cadw'n gynnes | 7 | 1,710 |
| Galwyr ffug | 13 | 21,969 |
| Diogelwch yn y cartref | 9 | 10,434 |
| Croeso adref o'r ysbyty | 8 | 2,952 |
| Age Cymru | 4 | 2,946 |



## Cyfleusterau yn y gymuned

| Maes | Nifer y cynghorau a adroddai'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau | Nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ledled Cymru |
|---|---:|---:|
| Toiledau cyhoeddus | 0 | Heb ei gofnodi |
| Llyfrgelloedd | 8 | 8,214,569 |
| Neuaddau cymuned | 4 | 1,539,978 |
| Canolfannau dydd | 10 | 21,336 |
| Canolfannau byw'n annibynnol | 4 | 5,652 |



## Tai a gwasanaethau cymorth seiliedig ar dai

| Maes | Nifer y cynghorau a adroddai'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau | Nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ledled Cymru |
|---|---:|---:|
| Gofal ychwanegol | 12 | 753 |
| Gwarchod (dim warden) | 9 | 5,180 |
| Gwarchod (gyda warden) | 12 | 6,159 |
| Wedi'u dynodi i'r henoed | 5 | 5,548 |
| Technoleg gynorthwyol | 8 | 13,972 |
| Teleofal | 13 | 20,012 |
| Wardeniaid symudol | 8 | 7,978 |
| Cymorth fel y bo'r angen | 14 | 5,372 |
| Grantiau cyfleusterau i'r anabl | 15 | 5,497 |
| Gofal a thrwsio | 12 | 9,673 |
| Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym | 10 | 6,778 |
| Tasgmon | 7 | 4,828 |



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru